

ECO'R WYDDFA

Rhif 103

MAI 1985

Pris 20c

SEINDORF YN DATHLU



ELENI, mae Seindorf Arian Deiniolen yn dathlu ei ben-blwydd yn 150 oed, a phenderfynodd y pwyllgor ddathlu mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Y peth cyntaf yr aethpwyd ati i'w drefnu oedd cyngerdd mawreddog ym mhentref Deiniolen. Cynhaliwyd y cyngerdd hwnnw yn Eglwys Ebeneser, Deiniolen nos Wener, Ebrill 19. Roedd dros 500 o bobl yn bresennol; yn gwrando ar Trebor Edwards, Siân Wyn Gibson, Triawd Hendre Cennin, Lindsey Vaughan Parry a'r Seindorf ei hun wrth gwrs. Arweinydd y noson hynod lwyddiannus oedd Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd.

Arweiniwyd y band gan Mr Nicholas Childs. Ef yw hyfforddwr proffesiynol y band, ac ef yw prif chwaraeydd iwffoniwm Band Grimethorpe, Swydd Efrog. Cafwyd 2 unawd bythgofiadwy gan Mr Childs yn y cyngerdd.

Yna, ar nos Sadwrn Mehefin 15, cynhelir cinio swyddogol i aelodau presennol y band a'r pwyllgor, ynghyd â'u gwŷr a'u gwragedd yng ngwesty Anglesey Arms, Porthaethwy.

Yn Eisteddfod Gwaun Gynfi Deiniolen, ym 1984, enillodd Mr John Emrys Morris y wobr gyntaf am ysgrifennu traethawd - 'Braslun o Hanes Seindorf Deiniolen'. Cafwyd caniatâd Mr Morris i gyhoeddi ei waith ynghyd â chyfres o luniau sy'n cynrychioli gwahanol gyfnodau yn hanes y band.

Dylai'r sawl sydd eisiau copi o'r llyfryn, sy'n costio £1, gysylltu ag unrhyw aelod o'r band neu'r pwyllgor. Maent ar gael hefyd yn y

siopau isod - Swyddfa'r Post, Deiniolen, Siop Edna, Y Becws, Swyddfa'r Post, Clwt-y-bont.

G.P.

John Emrys Morris



**BAND
DEINIOLEN
1835-1985**

Rhagor o luniau'r cyngerdd tu mewn.

**PRIF
DDOSBARTHWR
YR ECO
YN Y PENTREFI**

**Dewch i gyfarfod i
drafod**

**"Gwertiant yr Eco"
yn Ysgol Gynradd
Llanrug
Nos Iau, Mai 9
am 7.30**

**Cofiwch ddod â'r rhestrau
dosbarthu**

LLAIN GRICED I'R YSGOL - ER COF AM FFRIND



Gyda llawer o fechgyn Ysgol Brynrefail yn awr yn edrych ymlaen i'r tymor criced mae'r ysgol wedi bod yn ffodus iawn i gael llain griced newydd. Llain o garped arbennig sydd wedi ei osod i lawr ar goncrit.

Ddwy flynedd yn ôl fe drefnodd rhai o fechgyn yr ysgol raffl ac fe gasglwyd yn agos i £300. Raffl oedd hon i hel arian ar gyfer cael rhywbeth i gofio am eu ffrind Paul Lomas (Bethel) a fu fodd tra'n nofio mewn afon ger Llanberis.

Roedd Paul Lomas yn gricedwr talentog ac roedd wedi chwarae i dîm ysgolion y Sir ac felly fe benderfynodd ei ffrindiau fod yr arian i gael ei ddefnyddio i gael llain griced o safon uchel yn yr ysgol. Fe gyfrannodd y Sir £300 arall tuag at y gost ac yn ystod wythnos gynta'r

tymor fe aeth rhai o'r athrawon a Gareth Owen (Bethel), un o'r disgyblion, ati i osod y carped i lawr ar y concrit.

Chwaraewyd y gêm gyntaf ar y llain newydd nos Fercher, Ebrill 24 rhwng Bechgyn Hŷn yr Ysgol a thîm cymysg o athrawon a bechgyn yr ysgol.

Y sgôr - Yr athrawon - 111 am 6 wiced. Y bechgyn hŷn - 113 am 4 wiced.

Buddugoliaeth felly i'r bechgyn. Roedd pawb, yn enwedig y batwyr, wedi eu plesio hefo'r llain newydd.

Yn y llun uchod mae ffrindiau'r diweddar Paul Lomas yn sefyll ar y llain newydd. O'r chwith i'r dde: Neil Wannop, Benjamin Shaw, Daniel Crowe a Michael Coombes.

NOSON HANESYDDOL



"Weles i ddim ciw fel hwn ers cyn i'r pictiwsr gau." Dyna eiriau un hen wag wrth aros ei dro'n amyneddgar i ymaelodi â Chymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa yn ei chyfarfod cyntaf yn Oriel Eryri, Llanberis, nos Fercher, Ebrill 17.

Pan gododd Arwel Jones, Cadeirydd y Gymdeithas i gyflwyno darlith agoriadol Maldwyn Thomas, roedd y ddarlithfa foethus yn llawn dop a'r swyddogion bodlon yn hapus o wybod fod yr aelodaeth derfynol yn sicr o groesi'r 200.

Mawr fu'r disgwyl am y cyfarfod hwn a 'chafodd neb ei siomi.

"Diwylliant Bro" oedd y testun a'r llinyn cyswllt oedd hanes trist merch ifanc o Eifionydd a alltudiwyd i Awstralia am ddwyn dafad i fwydo'i dau blentyn newynog. Dychmygai Maldwyn Thomas beth ydoedd ei deunydd darllen hi a'i disgynyddion

(Trowch i dudalen 5)

ECO'R WYDDFA

RHIF 103
MAI/1985

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane
Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 77163).

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8
Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis
870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
Mai 30

Plygu yn Neiniolen
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH

Mai 21

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

BYDD YN HAEL I'R DI-GARTREF

Annwyl Olygydd,

Dymunaf drwy golofnau eich
'Papur Bro' ddatgan
gwerthfawrogiad cynnes staff
Cymorth Cristnogol yng Nghymru i
bawb a ddanfonodd gyfraniad tuag
at argyfwng difrifol ein cyd-ddyn yn
Ethiopia.

Cafwyd ymateb ardderchog oddi
wrth unigolion, eglwysi, ysgolion ac
amryw wahanol fudiadau a phleser
yw cyhoeddi bod cyfanswm
cyfraniadau pobl Cymru wedi croesi
£275,000 erbyn diwedd mis
Mawrth.

Mae angen Ethiopia yn parhau
ond 'run hefyd yw'r gri mewn llawer
gwlad arall yn Affrica.

Gyda miloedd ar filoedd yn
gadael eu mam-wlad i chwilio am
loches ac am fwyd, rhaid inni geisio
lleddfu ychydig ar eu poenau ac
ysgafnhau eu beichiau.

Mae'n addas felly mai thema
Wythnos Cymorth Cristnogol eleni
(13-18 Mai) yw "Bydd yn hael i'r
digartref".

Amcangyfrifir bod bellach, 15
miliwn o ffoaduriaid yn ein byd —
gyda mwy na hyn yn cael eu gorfodi i
adael eu cartrefi i chwilio am ddŵr,
am dir neu am waith.

Bydd Cymorth Cristnogol yn
canolbwyntio yr ymdrechion adeg
Yr Wythnos ym mis Mai, i godi arian
tuag at gynlluniau amrywiol, megis
iechyd, addysg, amaethyddiaeth a
rhaglenni cymunedol, sy'n cynnwys
gwella cyflwr nifer o slymiau mewn
llawer gwlad.

Ar ran staff Cymorth Cristnogol
yng Nghymru gwahoddaf chwi i
gefnogi'r gweithgarwch lleol yn eich
cylchoedd a'ch broydd adeg Yr
Wythnos a thrwy hyn byddwn yn
dangos eich haelioni i'r digartref.

Gyda llawer o ddiolch am bob
arwydd o gefnogaeth yn y gorffennol
gan ddymuno yr un ysbryd
haelionus eleni eto.

Pob dymuniad da i'r holl
ddarllenwyr.

Yn ddiffuant iawn,
Wynn Vittle

Ysgrifennydd Cymru
Cymorth Cristnogol
27 Heol yr Eglwys
Caerdydd

'GUIDE BOOKS' LLANBERIS

Annwyl Olygydd,

Ynglŷn â'r cais y mis diwethaf
am gopiau o hen "guide books" i
Llanberis. Mae un ohonynt yn fy
meddiant, ond ni chredaf mai'r
un "Guide Book" ydyw ag a
ddisgrifir gan Menna Byrne.

Mae'r rhagair wedi ei
ysgrifennu gan Robert Thomas,
— "Chairman, the Llanberis
Publicity and Development
Association", ac ynddo mae'n
dweud fod mwy na 30 o
flynyddoedd wedi mynd heibio
ers cyhoeddi "guide" lleol.

Tybed ble mae'r "Guide Book"
hwnnw heddiw?

Yn gywir,
M. Williams,
Nant Forgan,
Cwm-y-glo.

CYSTADLAETHAU GWYNEDD 1984-85

Annwyl Olygydd,

A gaf i drwy gyfrwng eich papur
atgoffa eich darllenwyr mai 31 Mai,
1985 yw dyddiad cau'r cystadlaethau
uchod.

Dyma yn fyr y cystadlaethau am
eleni.:

1. Llyfryn llawn ffeithiau diddorol a
thrawiadol o dan y teitl 'Wyddost ti
beth?' i blant o 10 i 13 oed.

2. Casgliad o straeon a chyffro. Y
cystadleuydd i nodi ar gyfer pa
oedran yr anelir y casgliad.

3. Detholiad o gemau buarth hen a
newydd a chaneuon os yn berthnasol
ar gyfer defnydd athro mewn ysgol
gynradd.

4. Llyfr neu gardiau gwaith yn ymdrin
â phwnc gwyddonol ar gyfer plant
9-11 oed.

5. Creu pecyn syniadau, i gynnwys
sleidiau a nodiadau ar ddiwydiant
lleol boed yn y presennol neu yn y
gorffennol ar gyfer plant 9-13 oed.

Anfonwch yn llu cyn y dyddiad
uchod i'r Swyddfa Addysg.

Yn gywir,
Gwilym E. Humphreys
Cyfarwyddwr Addysg
Swyddfa Addysg
Caernarfon

ARBRAWF YN Y LLYFRGELL

Annwyl Olygydd,

O'r cyntaf o Ebrill 1985
bwriadwn gynnal arbrawf yn
Llyfrgell Llanberis fel a ganlyn:

Canateir i ddefnyddwyr y llyfrgell
fenthyca recordiau neu gasetiau o'r
Llyfrgell Sain am dâl o 20c yr un yn
hytrach na thalu tanysgrifiad o £5.00
y flwyddyn. 'Rydym yn awyddus i
arbrofi i geisio darganfod a fydd y
dull hwn yn fwy deniadol i'r
defnyddwyr i fenthyca yn hytrach
na'r dull presennol. Gofynnir i'r
defnyddwyr lenwi ffurflen ymaelodi
ac yna ceir tri thocyn i fenthyca i fyny
i dair record neu gaset ar y tro am
gyfnod o dair wythnos.

Gobeithiaf y bydd hyn o
ddiddordeb i drigolion y cylch.

Yr eiddoch yn gywir,
D.G. Williams,
Llyfrgellydd Sir Cynorthwyol

TÎM 'VALLEY SWIFTS' 1912-1913

Annwyl Olygydd,

Ynglŷn â'r llun a ymddangosodd



yn yr 'Eco', enw'r dyn yn sefyll ar y
chwith mewn côt dywyll yw'r
diweddar John R. Griffith, o'r
cyfeiriad isod (Pen Lan gynt)

Yn gywir,
Elisabeth E. Griffith
2 Tai Caradog
Deiniolen

ACHUB DAU FYN GAFR

(3 gweithiwr Cyngor Sir yn gofyn am
farn)

Roedd lori Cyngor Sir Gwynedd yn
mynd am Nant Peris i fyny Bwlch
Llanberis i glirio cerrig o'r ffordd. Wrth
basio Castell Dolbadarn gwelodd y
dynion eifr a mynnod yn pori. Roedd
dau fyn gafr yn sefyll ar ochr y ffordd ar
ddarn o graig ac yn methu dilyn y fam am
fod gwifrau uchel yno.

Arhosodd y lori a daeth y tri dyn allan
i weld beth allent ei wneud. Roedd un
dyn wedi cael gafael yn y ddau fyn ac un
o'r lleill yn ei helpu i'w rhoi dros y wal.

Roedd y fam yn cerdded yn ôl ac
ymlaen yn y cae dan frefu.

Dydd Gŵyl Dewi oedd hi pan
achubwyd y ddau fyn.

Mae Castell Dolbadarn yn ymyl ac
yno y carcharwyd llawer o Gymry dewr.

Mae llawer o bobl estron yn erbyn y
geifr gwyllt — ond nid ydynt yn gwneud
llawer o ddifrod. Maent yn byw ar bori
eithin a mân ddeiliach. Mae llawer un yn
falch o weld y geifr gwyllt am eu bod yn
darogan tywydd.

Buasem yn falch o gael barn pobl
ardal Llanberis am y geifr gwyllt. Mae
gafr yma ers amser y Rhufeiniaid ac mae
hawl ganddynt aros yma.

TRI GWEITHIWR CYNGOR SIR

CYFRES TEITHIAU LLENYDDOL

Annwyl Olygydd,

Mae Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru yn bwriadu
cyhoeddi 'Taith Llenyddol' ar gyfer
pob ardal yn nalgylch y Gymdeithas,
sef Siroedd Clwyd, Gwynedd a
Dosbarth Maldwyn (Powys).


Gobaith y Gymdeithas yw y bydd
unigolion, grwpiau a chymdeithasau
yn defnyddio'r 'teithiau' hyn fel
arweiniad i dreulio ychydig oriau yn
blasu cysylltiadau llenyddol a
hanesyddol bro arbennig.

Maes o law bydd y teithiau hyn ar
gael fel pecyn mewn aml n blastig
ond ar hyn o bryd maent ar gael am
20c yr un o swyddfa'r Gymdeithas
ym Mangor.

Yr eiddoch yn gywir,
J. Clifford Jones,
Swyddog Rhanbarth,
10 Wellfield House,
Bangor.

Isod: Rhai o'r taflenni 'Teithiau
Llenyddol' sydd eisoes yn barod.

CODI STÊM : BRWYDR Y DDWY LEIN



Mae brwydr sy'n fwy nodweddiadol o goridorau'r Gyfnewidfa Stoc yn Llundain wedi dechrau ym mro'r 'Eco', a hynny rhwng y ddwy reilffordd fechan sydd â'u prif swyddfeidd ym mhentref Llanberis.

Mae Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa wedi ei sefydlu yn yr ardal ers blyneddau bellach, ond gweddol ddiweddar oedd dyfodiad Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn. Mae'r ddau gwmni'n ddibynnol ar y diwydiant ymwelwyr, ac yn elwa ar dymor gwyliau sy'n ymestyn o'r Pasg hyd fis Medi. Er hynny, mae'r ddau gwmni yn gyflogi gweithwyr amser llawn drwy'r flwyddyn, ac yn rhoi gwaith tymhorol i lawer o rai eraill yn ystod tymor prysur yr haf.

Yn ystod y misoedd diwethaf daeth Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa dan reolaeth Cadogan Properties, cwmni masnachol o Lundain, ond sydd bellach wedi sefydlu swyddfa gofrestredig yn Llanberis. Yn dilyn y trafodion busnes hyn, cynigwyd cyfranddaliadau yng Nghwmni Rheilffordd yr Wyddfa am 80 ceiniog yr un - ond fod rhaid prynu isafswm o 1,000 - hynny yw, gwerth £800. Gwnaethpwyd datganiad ar y pryd yn gobeithio y byddai'r rhan fwyaf o'r cyfranddaliadau hyn yn cael eu prynu gan bobl leol.


Sefydlwyd Rheilffordd Llyn Padarn gan ddibynnu'n llwyr ar danysgrifiadau gwerth £10 yr un oddi wrth bobl leol. Gyda'r arian hwn y dechreuwyd y busnes o adnewyddu'r lein fach ar hyd glannau Llyn Padarn, prynu offer a pheiriannau a chyflogi gweithwyr lleol.

Yn dilyn pryniant nifer helaeth o gyfranddaliadau Rheilffordd yr Wyddfa gan Cadogan Properties, mynegwyd diddordeb ganddynt hefyd yn y posibilrwydd o brynu cyfranddaliadau yng Nghwmni Rheilffordd Llyn Padarn. Gwrthodwyd y cynigiad hwn gan gyfarwyddwyr Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn, a thybient hwy mai

dyna ddiwedd y mater. Ond yn fuan iawn, deallwyd fod Cadogan Properties yn gwneud cynigion uniongyrchol i gyfranddaliadwyr y Cwmni a chynnig pris o £25 am bob cyfranddaliad gwerth £10. Deallwn fod nifer o unigolion eisoes wedi gwerthu am y pris hwn.

Pan sylweddolwyd beth oedd bwriadau'r cwmni o Lundain, ymatebodd cyfarwyddwyr Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn ar frys, gan anfon llythyr at bob un o'u cyfranddaliadwyr yn eu hargymell i wrthod cais Cadogan Properties - hynny rhag i reolaeth y cwmni lithro allan o ddwylo lleol. Cynigiodd cyfarwyddwyr Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn dalu yr un pris yn union â Chwmni Cadogan Properties i unrhyw gyfranddaliadwr a oedd am werthu.

Mae'r frwydr yn poethi, a Cadogan Properties yn honni y byddai cael y ddwy reilffordd dan reolaeth un cwmni yn llawer mwy manteisiol. Nid ydynt hyd yma wedi rhoi amlinelliad o beth yn hollol fyddai'r manteision rheini. Mae Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn ar y llaw arall yn mynnu y dylid cadw rheolaeth y lein fach yn nwylo pobl leol, ac mai anfantais dybryd fyddai



trosglwyddo rheolaeth i gwmni o estroniaid o Lundain.

Ond mae Cwmni Cadogan hefyd yn mynnu fod elfen leol i'w bwriadau. Mynnant eu bod wedi cynnig cyfranddaliadau yng Nghwmni Rheilffordd yr Wyddfa gyda'r gobaith y byddai pobl leol yn eu prynu.

Yn ystod mis Mai bydd Cyfarfod Blyneddol Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn, a bydd bwriadau Cadogan Properties yn amlwg ar eu rhaglen. Diddorol fydd gweld faint o gyfranddaliadwyr Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn fydd yn bresennol i ddangos eu gwrthwynebiad (neu eu

cefnogaeth) i strategaeth Cadogan Properties.

Lai na dau gant o flynyddoedd yn ôl dechreuodd pobl leol yr ardal fenter eu hunain drwy ddechrau cloddio am lechi ar lethrau'r mynyddoedd cyfagos - a gweld estron o'r Faenol yn hawlio'u mentrau drwy dwyll. Menter pobl leol fu Rheilffordd Llyn Padarn hefyd. Nid twyll, ond difaterwch cyfranddaliadwyr allai achosi i'r cyfan fynd dan reolaeth yr estron o Lundain.

(Gobeithiwn gael adroddiad pellach ar y "frwydr" yn ein rhifyn nesaf. - Gol.)

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL PORTHMADOG 1987

Gwahoddir cyfeillion sydd â diddordeb mewn ymuno ag Is-bwyllgorau at yr Eisteddfod i anfon eu henw, cyfeiriad a maes eu diddordeb i un o'r canlynol ar unwaith:

Y Meddyg Ieuan Parri, neu
Caereuni,
Penrhyndeudraeth.

Mr a Mrs W.R. Jones,
Ty'n y Bont,
Llandecwyn,
Talsarnau.

Dyma restr o'r Is-bwyllgorau:

Adrodd; Alawon Gwerin; Ambiwllans; Carafanau a Phebyll; Celf a Chrefft; Cerdd; Cerdd Dant; Cyllid; Drama; Dysgwyr; Gwyddoniaeth; Hysbysrwydd; Ieuenctid; Llên; Llety a Chroeso; Safle; Symudiad; Yr Orsedd.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN
LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

HEFYD YN SIOP

FFYN A CHERRIG
STRYD FAWR, LLANBERIS

LLANBERIS

Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)

EGLWYS SANT PADARN: Y Côr Merched - Bu'r côr merched lleol yn perfformio'r 'Cruxifiction' yn Eglwys Sant Padarn gyda Julie Wyn yn unawdydd a Robert Wyn Robert yn organydd. Arweinydd y côr oedd Mrs Linda Griffith.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad â Richard Williams, Stryd y Dŵr o golli ei frawd, John, yn yr ysbyty ym Mangor. Roedd John yn 73 mlwydd oed.

MARWOLAETHAU: Miss Margaret Williams ar Ebrill 16 yn 91 mlwydd oed. Adnabyddai pawb hi fel 'Maggie Betsan' a chyn cartrefu ym Mhlas Pengwaith, roedd wedi byw am flynyddoedd yn Stryd Goodman a chyn hynny yn 'Rallt Goch gyda Betsan Williams ei mam.

Mrs Miriam Hughes, gynt o Stryd yr Wyddfa a fu farw Sul y Pasg yng Nghartref Plas Pengwaith. Roedd yn 92 mlwydd oed ac wedi colli ei phriod 40 mlynedd yn ôl. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol yng Nghapel Bosra, Penisarwaun, y pentref lle'i maged hi. Gwasanaethpwyd gan y Parch Tudor Davies a'r Parch Eryl Lloyd Davies, Bebington.

Mr Hugh Curig Owen, ar Ebrill 18 yn 70 mlwydd oed yn ei gartref 12 Dôl Eilian. Rhoddodd flynyddoedd o waith gwirfoddol i'r Cadlanciau Sant Ioan, a'r mis diwethaf yma yr ymddeolodd ohono. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parch Alun Hawkins yn gwasanaethu ac yna ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i unig fab, Trefor, ei frodyr, a'i chwiorydd a'r teulu oll.

Mrs Elizabeth Ellen Roberts. Yn dawel yn ei chartref ar Fawrth 20 bu farw Mrs Elizabeth Ellen Roberts, Bryn y Coed, Fron Goch, Llanberis yn 81 mlwydd oed. Cydymdeimlir â'i chwaer, Mrs Sally Williams, Glan y Don, Stryd Fawr, ei mab a merch yng nghyfraith, Peredur ac Elizabeth.

Hanu o ardal Rhyd-ddu oedd Mrs Roberts cyn dod i fyw i Llanberis yn 1942. Bu'n gweithio yn y gegin yn Ysgol Dolbadarn ac wedyn symud yn gogyddes i Ysgol Gynradd Cwm-y-glo hyd ei hymddeoliad. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Coch ddydd Sadwrn, Mawrth 23 gyda'r Parch Trefor Lewis yn gwasanaethu, ac yna ym mynwent Nant Peris.

Dymuna'r teulu ddiolch i'r Parch Trefor Lewis am ei gydymdeimlad â hwynt, am y gwasanaeth yn y capel a'r fynwent, ac hefyd i Mr Myrddyn

Pritchard am y trefniant angladdol. Diolch hefyd i'w llu o gyfeillion am eu cydymdeimlad.

Er cof am Elizabeth Ellen Roberts: Hon o'i bodd fu'n rhoddi - i'w haelwyd

**Oludodd aneiri,
Er y dydd a roed iddi,
Ennyd oedd ei myned hi.**

R.H.PARRY

DATHLU PEN-BLWYDD: Yn ystod y Pasg bu Eleri Tudor Ellis, Rhes y Cae yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed.

Llongyfarchiadau calonnog iddi, a phob llwyddiant ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle mae ar ei blwyddyn olaf.

Dymuniadau gorau a phob bendith, Ruth, Plas Tirion ar ei phen-blwydd yn un ar hugain oed ar Ebrill 29.

CROESO GARTREF: Croeso cynnes iawn gartre i Mrs Martin Owen, Stryd Newton, ar ôl ysbaid hir iawn yn yr ysbyty. Mae'n aros gyda'i merch, Nettie, yn Stryd Tomos. Croeso adre hefyd i Mrs Winnie Owen, Stryd Warden wedi ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU: i Miss Karen Jones, Maes Padarn ar ennill ei gradd SRN yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd.

- I Mr a Mrs W. Allsup, Stryd Ceunant ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch i'w mab Melvyn a'i wraig ar Ebrill 17. Mae Melvyn a Julie wedi ymgartrefu ym Mhrestatyn.

- I Hefin a Sheila Jones, Grove House ar enedigaeth mab, Aaron Lloyd, brawd bach newydd i Rachel, Sarah a Rebecca.

- I Adrian Williams, 23 Stryd Fawr ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21ain oed ar Ebrill 13.

- I Eilir, mab Robin a Megan Parry, 20 Dôl Elidir, ac Eleri, merch John a Catherine Williams, 6 Rallt Goch ar eu priodas ar Ebrill 6. Ein dymuniadau gorau i'r pâr ifanc.

DIOLCH: Dymuna Eleri ac Eilir ddiolch i'w teulu a ffrindiau am yr anrhegion hardd a'r llu cardiau a dderbyniodd y ddau ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY: Dymunwn adferiad buan i Mr Robert Gartside, y Fferylllydd lleol sydd yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor.

LLWYDDIANT ST IOAN: Llongyfarchiadau i Alison Jones, Meinir Owen, Catrin Lloyd Roberts, Einir Thomas, Gillian V. Jones a Christine Pitts ar eu llwyddiant mewn arholiad 'Llyfryddiaeth' gyda'r Cadlanciau St Ioan.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fawrth 28, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Y wraig wadd oedd Mrs McShane o Ffestiniog yn siarad ar 'Hiwmor y chwarelwyr gynt, pobl a phlant'. Treuliwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmni. Diolchwyd i Mrs McShane a'r gwestwagedd gan Mrs Nan Owen a Mrs A.B. Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs Katie Morris, Mrs A.M. Evans a Mrs Gwen Edwards. Enillwyd y raffl gan Mrs Helen Morris. Hefyd ym mis Mawrth aeth yr aelodau i Goleg Technegol Bangor i weld 'Welsh Lamb Cookery Demonstration'. Yn y cyfarfod roedd yna fwy o'n haelodau ni'n bresennol, ac felly fe gawsom hambwrdd fel gwobr, am ein bod gyda'r rhif mwyaf yn bresennol yn y cyfarfod nag unrhyw Sefydliad arall.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jennie Maxwell, Argoed ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra'n Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna Lynda ac Emlyn, 15 Stryd yr Wyddfa ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a'u ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu bachgen bach, Robert Cefyn, ar 16 Mawrth. Diolch yn fawr iawn.

HWYL Y PASG: Darparwyd

gweithgareddau arbennig iawn yng Nghapel Coch ar gyfer plant yr Ysgol Gynradd yn ystod gwyliau'r Pasg. Y gweinidog, y Parch Trefor Lewis a drefnodd y gweithgareddau a gwirfwynhawyd y cyfan gan y plant.

CÔR GODRE'R GARTH: Mwynhawyd yn fawr iawn y cyngerdd mawreddog a gafwyd yng Nghapel Coch nos Sul y Pasg gan Gôr Godre'r Garth. Mae'r Cwmni Drama yn ddiolchgar iawn i bawb a fu'n gwerthu tocynnau.

THEATR FACH GORFFWYSFA: Beth ydych yn wneud gyda'ch hen bapurau dyddiol a hen gylchgronau? Eu llosgi? Eu taflu? Beth am eu casglu i ni. Fe allwn wneud defnydd ohonynt. Os ydych yn fodlon i ni eu cael, fe ddaw plant o'r ysgol o gwmpas bob dydd Llun a dydd Mawrth (wedi'r ysgol) i'w nhôl. Diolch yn fawr - y Cwmni Drama.

DIOLCH: Dymuna Mrs Dilys Graham, merch Mr a Mrs Mary Jones (chwaer) a'r teulu, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant o golli mam a chwaer, sef Mrs Miriam Hughes, Plas Pen Gwaith. Diolch i'r Parch Tudor Davies a'r Parch Eryl Lloyd Davies am wasanaethu diwrnod yr angladd yng nghapel Bosra Penisarwaun, ac i Mrs Ann Evans am wasanaethu wrth yr organ. Diolch yn arbennig i Fatron a staff Plas Pen Gwaith am eu gofal caredig ohoni am dros bum mlynedd. Diolch yn fawr i bawb.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

UNDEB Y MAMAU: Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan nos Fawrth, Ebrill 8. Llywyddwyd gan Mrs D. Pierce, Llanrug. Bydd Gŵyl Undeb y Mamau yn cael ei chynnal yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis 14 Mai am 7 o'r gloch.

Rhodddwyd croeso i'r gwestai, Mrs Ann Evans o Ddeiniolen. Cawsom anechiad ddiddorol ganddi am fywyd ei mam. Diolchwyd i Mrs Evans gan Mrs Dorothy Jones. Merched Cwm oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a diolchwyd iddynt gan Mrs Taylor, Llanrug. Rhodddwyd y raffl gan Mrs Dorothy Jones, Mrs Evans a'i henillodd.

DR BARNARDO: Casglwyd swm o £27.70 yng Nghwm y Glo at Dr Barnardo. Diolch i'r canlynol, Alison Jones, Fron Gader; Mrs Enid Price, New Street; Myfanwy Roberts, Bod Gwilym; Karen Foulkes, Tan-y-bryn a Nia Hughes, 17 Dolafon.

GWELLHAD BUAN: i Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, ar ôl iddi fod o dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Mrs Catherine Foulkes, 2 Tan y Bryn ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd, am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd tra'n yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd, y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra'n Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

COFION: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i Mrs K. Watkins, Dolwen sydd heb fod yn dda'n ddiweddar.

CLWB POBOL Y CWM: Croesawyd Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug i'r clwb ar Ebrill 4, a chafwyd prawn difyr yn gwrando arni'n adrodd ei hanes, a'i phrofiadau yn Llandwrog pan yn rhedeg Swyddfa'r Post yn ystod y rhyfel diwethaf. Dangosodd ei dawn arbennig i ddisgrifio amryw o gymeriadau. Diolchwyd iddi gan y llywydd, Mr Llew Hughes, a

llongyfarchodd hi ar dderbyn rhodd o lyfr Emynau gan Eglwys M.C. Llanrug am ei gwasanaeth gwirfoddol i'r Eglwys yn y pulpud am lawer o flynyddoedd. Rhodddwyd y te gan Mrs R.H. Parry a Mrs Mair Williams, enillwyd y raffl gan Mrs E. Hughes rhodddedig gan Mrs E. Jones. Pleser oedd croesawu Mr Arthur Rowlands, cyn-aelod o heddlu Gwynedd i'r clwb ddydd lau, Ebrill 18. Cawsom dystiolaeth o'i ddewrder anhygoel yn ei sgwrs yn ymwneud â'i ddamwain anffodus pan yn heddwys yn Corris. Cyflwynwyd ef gan Mr R.H. Parry a diolchwyd iddo gan y llywydd. Rhodddwyd y te oedd Mrs H.M. Roberts a Mrs Williams, Pantafon, a'r raffl gan Mrs H.M. Roberts.

LLONGYFARCHWN Mr Idris Williams, mab Mrs E. Williams a'r diweddar Mr Hugh Morris Williams ar ei ddychafiaid yn roelwr banc Barclays yng Nghonwy. Dymunwn pob llwyddiant i Idris yn ei swydd newydd.

Y CARNIFAL: Cynhelir wythnos y carnifal eleni o nos Lun, Gorffennaf 8 gan orffen gyda'r carnifal ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13. Ceir fwy o fanylion yn nes ymlaen.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs John C. Jones, 21 Dôl Afon ar ddathlu eu priodas Ruddem.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs John C. Jones, 21 Dôl Afon ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau (dros pedwar ugain) a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu eu priodas Ruddem.

BETWS GARMON

DYWEDDŌ: Llongyfarchiadau i Meirion Williams, Y Llythyrdy ar ei ddywedd i Helen Jones, Stâd Eryri, Bethel.

PEN-BLWYDDI: Dymuniadau gorau i Mr John Williams, Bryn Rhyd ar ei ben-blwydd yn 80, Mai 7.

Hefyd Eurig Jones, Cynefin ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed, Mai 16.

GWYNETH ROBERTS

(Siop E. Wilson Hughes gynt)

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

**PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION**



**Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.**

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



UN GYDA'R NOS

o Straeon Goronwy Owen

'Mam, ga i brês i fynd i'r sosial?'
'Lle wyt ti'n meddwl ma gen i brês i ti fynd i wario o hyd? Sbia yn dy Gadw Mi Gei'.

'Dw i wedi. Dos dim byd yno fo.'
'Wyt ti wedi gwario'r deunaw yna ges ti gan Yncl Wil Llundain yn barod? 'Sgyn i ddim prês i roi i ti o hyd ag o hyd. Ynda, dyma i ti ddwy geiniog.'

Allan a fi, ar ôl gorfod ymolchi fy wyneb a'm dwylo a'm dau benglin.
'Aros.' Mam yn fy nhalw yn ôl.
'Dyma swllt i ti fynd i siop Williams i nôl chips i swpar pan fyddi di'n dwad adra, a cofia frysio hefo nhw, ne fe fyddan nhw'n oer. Dim hwyrach na hannar awr wedi wyth. Cofia di rwan.'

'O reit.'
Ffwrdd a fi, dros Ben Graig a heibio Tŷ Plisman, a chyrraedd Cwt Band hefo hanner dwsin eiddgar arall, yn llawer rhy gynnar. Er fod swm prysur tu mewn, ar gau roedd y drws. Daeth swm tren yn symud yn araf yn y stesion. Gwyddai pob un ohonom ar unwaith beth oedd, - injan sgysion Rhyl ne Llandudno yn mynd i gael ei throï ar y 'turn-table.' Mewn chwinciad, roedd tri ohonom wedi rhedeg i mewn i iard y relwê trwy'r giat bella.
'Plis, ga ni helpu?'

'Rargian fawr, tri Samson. Alla ni ddim gneud hebo chi. Mi ydach chi'ch tri yn ddigon cry i droi'r llyn a'i ben i lawr.'

Roedd y gyrrwr a'r taniwr newydd sicrhau'r peiriant ar y bont droi.
'Fan hyn yda chi isio i ni wthio?'
'Yr hogyn mawr yn fan yna, a chi'ch dau'r ochr acw. Aros funud, dyda ni ddim wedi datgloi'r bont eto. Mae rhaid i ni dynnu'r ddau far 'ma gynta.'

Aethom ati a'n holl nerth a gweld yr injan fawr ddu yn troi o gwmpas yn rhwydd fel rhyw forfil mawr diog, i wynebu Pen Llyn. Safom yn ôl i wyllo'r dynion yn ail gloi'r bont cyn iddynt yrru eu peiriant yn ôl yn araf, i'w chwpysu ar ben pella'r cerbydau, oedd eisoes yn llenwi hefo pobol wrth y platform.

'Diolch. Gawn ni helpu chi 'fory?'
'Cewch nenno'r tad, ond rhedwch allan o'ma rwan, cyn i Huws Stesion y'ch dal', a ffwrdd a nhw.

Rheda som yn ôl i'r Cwt Band. Roedd y drws ar agor, a dyn yn sefyll ar y trothwy. Edrychodd yn amheus ar y tri ohonom.

'Ydach dhi'n dwad i mewn?'
'Ydyn'.

'Reit, ceiniog yr un'.

Doedden ni ddim mor ddwl a hynna.

'Gawn ni sbio i mewn gynta?'
'Wel, peidiwch a bod yn hir.'

Trodd i dderbyn arian gan oedolion, a llithrasom i mewn tu ôl iddo fesul un. Roedd yno ddigon o bethau i dynnu dŵr o'n dannedd - teisenod, stol dda-da, stol lyfrau a chomics ail-law a llu o stondinau dwyn arian. Euthom o amgylch i weld y ffordd orau i wario'n ffortiwn. Safai cist de fawr yn llawn o lwch lli ar un ochr, a darn a bapur arni yn egluro fod y 'Lucky Dip' yn costio ceiniog. Broliai John Hays 'Mi ges i fag o dolly mixtures, ac fe gafodd Madge Pant Cafn focs o siocled'.

Reit, roedd rhaid cael tro ar hwn. Telais fy ngheiniog, a rhoddais fy llaw i lawr i waelod y gist i

ymbalfalu, a thynnu allan barsel bach mewn papur brown. Casglodd criw o blant oddiamgylch i weld pa drysor a gefais, a brysais inna i'w agor. Wrth weld fy mod wedi tynnu allan wn caps, gwennais yn obeithiol, ond diflannodd y wen wrth sylwi ei fod wedi torri. Ond roedd gen i geiniog arall, ac roedd dau ohonom wedi gweld rhywbeth newydd sbon ar un o'r byrddau.

'Plis, be ydy rheina?'
'Jeli'.

'Jeli mewn bocs papur? Faint ydy nhw?'

'Ceiniog yr un.'

'Mae nhw'n edrach yn neis hefo'r pethau bach bob lliw 'na arnyn nhw.'

'Be ydy rheina?'
'Virmicelli'.

'Fyrmijeli?'
'Ia.'

Wedi i ni dalu ein ceiniog, daeth syniad arall i'n meddwl.

'Oes 'na lwy i'w byta nhw?'
'Nagoes.'

Aeth y ddau ohonom allan gan edrych ar ein gilydd, i drio datrys y broblem yna allan. Doedd dim ond un atebiad. Ydych chi wedi trio byta jeli hefo bys a bawd erioed? Os ydych chi am drio, ewch allan i'r ardd.

Ar ôl darford y wledd, cerddodd y ddau ohonom drwy Cae Dros Bont a Chae Doman i Lan Llyn, lle roedd criw o hogia yn 'sgota. Es yn ôl i'r doman i chwilio am bot jam a hen dyn wedi rhydu. Trwy glymu darn o gordyn am wddw'r pot jam, roedd posib ei daflu i'r dŵr, lle roedd sil dons yn nofio 'nôl a mlaen yn yrrau bach prydferth.

Yna, trwy ei wyllo yn ofalus, gallem weld os oedd 'sgodyn yn mynd iddo. Plwc sydyn, ac fe fyddai'r creadur bach wedi 'i ddal, ond rhy fuan neu rhy hwyr, ac fe fyddai wedi dianc.
'Be 'dach chi'n neud, hogia?'
Roedd rhyw ddyn dieithr pryd tywyll a mwstach du yn sbio ar y minos bach yn nofio'n ddibwrpas yng ngwaelod y tyn.

'Dal pysgod'.

'Pa bysgod ydy'n nhw?'
'Minos.'

'Yda chi'n 'i byta nhw?'
'Na, mynd a nhw adra i'w cadw.'

'O, diddrol!', a cherddodd i ffwrdd. Gofynnodd rhywun, 'Pwy oedd hwnna?'

'Jones Cem, teacher newydd yn Brynrefail. Mae o'n dod o 'Stiniog, a does dim llyn yn fanno.'

Hyfryd meddwl i ni roi gwybodaeth iddo fo, cyn iddo ef ddechrau'n dysgu ni, ond fel gwyddonwr da, roedd o'n barod i ofyn cwestiwn. Hefo tri pysgodyn bach yn y pot jam, cychwynais i fyny Stryd yr Wyddfa am adra, ond wrth gadw riat yn y Bonc, collais beth o'r dŵr. Awgrymodd rhywun, 'Gad i ni 'u rhoi nhw yn Afon Ben Snowdon', (dyna enw mawr ar ffôs mor fach). Doedden ni ddim eiliad yn mynd dros ben wal i ymgolli am ddeng munud neu fwy, yn gwneud argae o gerrig a tholpis i greu pwll i'r poysgod druan. Yng nghanol yr holl ddiifrrwch, galwodd llais uchel, llais un o oedolion Llainwen o'r lon.
'Gronwy, mae dy fam isio i ti frysio hefo'r chips'.

'Rargian, roeddwn wedi anghofio bob peth am y sgolodion. Lle roedd y

swllt? Chwiliais fy mhocedi. Roeddwn wedi ei golli. Na, dyma fo yng nghanol pentwr o gardiau sigaret. Rhedais i lawr yn ôl i'r pentra, i wrando ar ffraethineb Mrs. Williams, yng nghynhesrwydd clud y siop. Yna ailfrysio am adra hefo bag mawr o sgolodion wedi 'u lapio mewn papur newydd. Rhyw fodd neu gilydd, llithrodd fy llaw i mewn a diflannodd un neu ddwy o'r cynnwys i'm cyllau. Sawl plentyn sy wedi disgyn i'r un demtasiwn? Cyrhaeddais y tŷ, lle roedd swper ar y bwrdd yn barod.

(parhad o'r dud. flaen)

trwy'r ganrif ddiwethaf. Wrth adrodd yr hanes cawyd darlun byw o fywyd tref Caernarfon a phentrefi'r cylch - y Nelson Emporium efo'i ffrogiau swel - y Caernarvon & Denbigh Herald, a'i olygydd amheus, yn cribinio Gogledd Cymru am 600 o ddarlennwyr tra bo'r Herald Gymraeg yn gwerthu 15,000 o fewn ychydig filltiroedd.

Adroddwyd y cyfan gyda stôr o straeon ffraeth nes bod y dagrau'n llifo lawr ambell i wyneb. Fel y dywedodd rhywun "Biti na fasa' hanes mor ddifry â hyn pan o'n i'n yr ysgol."

Diolchwyd i'r darlithydd gan Miss Mat Pritchard a diolchwyd hefyd i Dr Llŷr Gruffydd, Curadur yr Oriel, am wahodd y gymdeithas i gynnal ei chyfarfod cyntaf yno. Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. nos Fercher, Mai 15 yn Ysgol Gynradd Llanrug, sef Noson Gymdeithasol a Chyfarfod Cyffredinol yng ngofal Dafydd Whiteside Thomas.

'Dratia di. Lle wyt ti wedi bod mor hir.'

Gafaelodd mam yn y bag a dechrau rhannu'r chips.

'Hanner awr wedi wyth ddwedais i wrtha ti, a sbia ar dy ddwylo di. Mae nhw fel y blac. Beth yn y byd wyt ti wedi bod yn neud? Cer i'w golchi nhw y munud yma.'

Wnes i ddim dweud wrthi y cyfan fum i'n wneud. Pe tawn i wedi egluro, digon o waith y byddaiystal blas ar y chips. Fel Walpole, roeddwn innau'n credu'n gryf i adael i gŵn cysgldd gysgu.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

TRIP I'R AELODAU 19 MEHEFIN 1985

Ymweld ag Eglwys Clynnog yng nghwmni'r Parch Idris Tomos ynghyd ag un man arall i'w drefnu

Yna Cyw lâr a Sglodion (a sgwrs) yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Llandwrog
Pris tebygol: £2 yr un

Rhaid gwybod y niferoedd ymlaen llaw. Gofynnir felly i'r aelodau ddod â'u £2 i'r cyfarfod nesaf yn Llanrug, neu ei anfon i'r Ysgrifennydd neu'r Trysorydd erbyn diwedd mis Mai fan hwyraf.

Bws Bysus yn dechrau o Lanberis am 6.15 pm gan alw yn y pentrefi eraill yn ôl yr angen.

Padarn Lake Hotel

Perchnogion
Terry a Val Skilki

STRYD FAWR
LLANBERIS
870260

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hôte ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein lloffttydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

COFIWCH: Byddwn yn plygu Eco Mehefin yn Ffestri Capel Ebeneser, nos lau, Mai 30 am 6.00 o'r gloch. Gwerthfawrogi eich cymorth.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ebrill 1 dan gadeiryddiaeth y Llywydd, Mrs Eirlys Lloyd Jones. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol. Y gŵr gwadd oedd Mr Edward Edwards, Porthaethwy a ddangosodd ffilm ar 'Malawi'. Yn cynorthwyo Mr Evans yr oedd Mr Parry, yntau hefyd o Borthaethwy.

Diolchwyd iddynt gan Mrs Jean Moeller. Rhoddwyd y te gan Mrs Rita Parry Jones a Mrs Marian Williams. Mrs Williams enillodd y raffl hefyd.

Mynegwyd cydymdeimlad â Mrs J.E. Williams ar golli ei chwaer yng Nghaernarfon. Mrs J.E. Williams fydd yn cynrychioli'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn Llundain ym mis Mehefin.

Llongyfarchwn Miss Moeller ar ennill mat o groen defaid am wneud cyfarwyddiadau ar sut i wneud cig oen Cymreig yng Ngholeg Technegol Bangor yn ddiweddar.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 14 pryd y bydd y Sefydliad yn cyfarfod yn nhŷ Mrs Vera Hughes, Bethesda, y V.C.O.

YSGOL FEITHRIN:

Rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod tymor y gwanwyn. Diolch i bob un a gefnogodd ac a helpodd yn y ddau arwerthiant i godi arian. Daeth Mrs Lewis at y plant i ddarllen stori, hefyd ymwelodd Nodi, yng nghwmni Anti Jên yr ymwelydd iechyd, â'r Ysgol Feithrin. Diolch iddynt oll.

Aethom i ymweld â fferm Anti Kay (ger Pentir). Cafodd pawb eistedd ar y ceffyl (a'r fuwch!), bwydo'r oen llywaeth, a mwynhau prydferthwch yr ardal. Diolch i Anti Denise am drefnu'r trip; hithau hefyd ddaeth â'r penbyliad i'r ysgol - rydym yn disgwyl llyffantod unrhyw funud!

Cyn cau am y gwyliau, aeth criw o'r plant i ganu'r caneuon roeddent wedi eu dysgu am anifeiliaid y fferm i Glwb Elidir yn y clinic. Diolch am y croeso, y diod a'r bisgedi, ond yn bennaf, diolch i'r mamau am ganiatáu i'w plant ddod.

Mae nifer o'n plant bellach wedi dechrau yn yr 'Ysgol Fawr'. pob dymuniad da i Rhianon, Michael, Alex, Chris, Vicky, Tony, Euron, Euron a Mair oddi wrth Anti Val ac Anti Jina.

Diolch i famau Tony a Michael am eu gwaith da ar y pwyllgor. Rydym yn ddiolchgar bod mam Rhianon (ein trysoryddes) yn dal yn ei swydd tan ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfod blynnyddol ym mis Mehefin.

Yn sgîl colli'r plant hŷn, mae gennym le i blant newydd yn yr Ysgol Feithrin; cysylltwch â'r ysgrifenyddes, Mrs Pat Thomas, neu dowch i'n gweld ni rhwng 9.15-11.15 bore Mawrth, Mercher a lau. Mae tymor prysur arall o'n blaenau!

APÊL: Mae angen piano a chwpwrdd arnom ni. Os fedrwyd chwi helpu ffoniwch 872493.

Byddwn yn dra diolchgar.

DIOLCH: Dymuna Mr J. E. Morris, Clwt-y-bont a'r teulu ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli priod, mam, nain a hen nain annwyl. Hoffent estyn diolch arbennig i'r Parch Ifor L. Williams, y cyn-brifathro G.R.M. Lloyd a Miss Mair Rees Jones am eu gwasanaeth ddydd yr angladd a Mr Myrddin Pritchard, Llanberis am y trefniadau.

Er cof am Catherine Mary Morris a hunodd Mawrth 23, 1985

Daeth gwys o'r nef i'w galw,
O'i haelwyd ar y llawr,
Do, gwelsom hebrwng Catherine
I freichiau'r Brenin mawr;
O ofid byd a'i bryder,
Caiff huno mwy mewn hedd,
Yng nghwmni'r Pererinion,
Tu hwnt i ffiniau'r bedd.

Diolchwn am ei chwmni,
A'i thalent yn y fro,
Ei hyfryd lais a erys
Uwchlaw priddellau'r gro;
Er maint ei chystudd dyddiol,
Ni phallodd lamp ei ffydd,
'Roedd yn ei chalon gynnwys,
Ddi-derfyn olau dydd.

Bu'n fam a phriod hawddgar,
Am hanner canrif faith,
Yn llawn haelioni dyddiol
I'w theulu ar eu taith;
'Roedd fel rhyw ddolen gydiol
O'r hen weriniaeth iach,
A'i chalon yn coffleiddio,
Ei hannwyl wyrion bach.

Ond, heddiw rhaid ei hebrwng,
I dawel erw Duw,
Yn hardd dan drwch o flodau,
Mynegiant dynolryw;
I'w phriod hoff a'r teulu,
Llewyrched golau'r nef,
Y golau hwyrol tawel,
Fel balm o'i gariad Ef.
JOHN DAVID EVANS, (Johnie Iard)
Maes y Dref, Clwt-y-bont, Deiniolen.

MARW: Yn dawel yn ei gartref 6 Marian Terrace, ar Ebrill 1 bu farw Mr Robert David Thomas yn 76 mlwydd oed.

Bu'r angladd ddydd lau, Ebrill 4ydd

gyda gwasanaeth yn ei gartref a chapel Cefn-y-waun ac yn dilyn ym mynwent Macpela gyda'r Parch Trefor Lewis yn gwasanaethu.

DIOLCH: Dymuna Mrs H.J. Thomas, Irfon, Dyfrig a Christina a'r teulu ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl. Hefyd diolch arbennig i'r Parch Trefor Lewis a'r gweinyddesau am eu caredigrwydd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Nos Lun, Chwefror 25 cafwyd cwis dan ofal Mrs Margaret Cynfi Griffith. Roedd aelodau o Nant Peris a Deiniolen yn cymryd rhan. Cafwyd noson ddifyr a chartrefol.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Trefor Lewis. Ym mis Mawrth roedd Mr Huw Thomas, Llangefni yn sôn am ei hanes yn dechrau gweithio a byw mewn barics y chwarel.

Wedyn ei brofiadau yn yr Ail Ryfel Byd ar draethau Normandi. Roedd yn noson amrywiol a difyr.

Y llywydd oedd Mr Idwal Jones, 16 Hafod Oleu. Diolchwyd i Mr Thomas gan Mr I. Jones, a Mr Donald Jones, i gyd yn dwyn atgofion yn ôl am Chwarel Dinorwig. Yn bresennol hefyd roedd ffrind i Mr Thomas sef Mr Ifan Hughes, gynt o Glwt-y-bont, ond yn awr o'r Waunfawr.

Ymateb darllenwr arall i rifyn mis Mawrth:

Fy mhentref sydd fychan, ond annwyl i mi,
Cymeriad ei phobl sydd eto mewn bri.
Ei Seindorf, ei llyfrgell, i.w. a'r Wawr,
Felly gwylia 'rhen gyfaill cyn ei thynnu i lawr.

Heb sôn am weithgaredd a ddigwydd bob dydd
A'i phobl di-rodres sydd lawn doniau cudd.
Ni soniaist am yr ysgol sy'n gwbl Gymraeg
Na'i phlant sydd yn codi ac ennill eu maes.


Mae 'Clogwyn', y ffatri yn enwog trwy'r byd,
A'r bechgyn sydd ynddi yn weithgar i gyd.
Gwna gofio ymddygiad mwyafrif o'r criw,
A wna bentref Deiniolen y lle gorau i fyw.

Felly, gwrando'r hen gyfaill, beth wnei di yn awr,
Eistedd ar dy ben ôl, rhoi dy galon i lawr?

Mae rhywbeth mewn ymdrech a gwella o hyd
Dangosa Llanbab fel un o'r llefydd gorau'n y byd.

UN O'R HOGIA'

O GYNGERDD Y SEINDORF



Trebor Edwards — un o sêr Cyngerdd Dathlu'r Seindorf.

DIOLCH: Dymuna Mrs S. Williams (Sass) 25 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, ei holl ffrindiau a'i chymdogion am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed.

Diolch o galon i chwi i gyd.

MERCHED Y WAWR: Os oes rhywun yn awyddus i ddod ar y 'Daith Ddirgel' ar ddydd Sadwrn, Mai 18, i gychwyn am 1 o'r gloch. Cysylltwch ag Eirlys Williams rhag blaen os gwelwch yn dda. Cofiwch mai 35 yn unig gaiff ddod ar y daith hon.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod Mawrth 21 yn y Clinic. Y llywydd oedd Mrs C. Marren. Rhoddwyd y te gan Miss Kathleen Jones. Treuliwyd prynhawn hynod o ddifyr yng nghwmni plant yr Ysgol Feithrin yn canu ac adrodd yng ngofal y ddwy athrawes, Mrs Gina Keller a Mrs Falmal Williams. Dymuna Miss K. Jones ddiolch i'r athrawesau a'r plant am eu rhodd o deisen pen-blwydd i'r Clwb. Anfonwyd cofion at amryw o'r aelodau sydd yn wael gartref ac yn yr ysbyty. Canwyd pen-blwydd hapus i Miss K. Jones a Mrs Woodcocks gan y plant a'r aelodau. Enillwyd y raffl gan Mrs Katie Lewis, Maes Gwylfa. Cyfarfu'r Clwb yn y Clinic Ebrill 9. Yn absenoldeb anorod y llywydd, arweinwyd y cyfarfod gan Mrs Sally Lewis. Rhoddwyd y te gan Mrs Blodwen Parry a Mrs Woodcocks. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Woodcocks ac fe'i enillwyd gan Mrs Mary Morris. Hefyd cyflwynodd 'S.A. Supermarket' Deiniolen flodau yn rhodd i'r Clwb. Enillwyd y blodau gan Mrs Elsie Davies. Treuliwyd gweddill y prynhawn gyda'r aelodau yn adrodd darnau a ddysgwyd ganddynt pan yn blant. Diolchwyd i bawb gan Mrs Sally Lewis.

CYNGOR EGLWYSI: Nos lau, Ebrill 4, Nos lau Cablyd - gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd gan y Parch Erfyl Blainey, yn Ffestri Capel Ysgoldy. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth hefyd gan y Parchn Aled Edwards, Trefor Lewis ac Ifor Williams, a chynorthwywyd wrth fwrdd y Cymun gan bedwar o'r diaconiaid. Mr John Griffith, Ysgoldy oedd wrth yr offeryn.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...**

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR
354646**

DEINIOLLEN

(parhad)

Y pnawn canlynol Gwener Groglith cyfarfu aelodau'r Eglwys yn festri Ebeneser yn gorymdeithio oddi yno i Eglwys Llandinorwig gan gludo croes sumbolaidd. Y Parch Aled Edwards oedd yn arwain yn y darlleniadau a'r myfyrdodau yn y gwasanaeth yn Llandinorwig gyda'r Parch Eryl Blainey yn ei gynorthwyo. Am dri o'r gloch - mewn cawod drom o wlaw - codwyd y groes tu allan i'r eglwys a chanwyd emyn cyn gwahanu.

Yn ôl yr arfer bydd y Cyngor yn trefnu casgliad o dŷ i dŷ yn y pentref, yn ystod 'Wythnos Cymorth Cristnogol' - 13 i 18 Mai, ac apelir am gefnogaeth hael i'r casgliad mewn ymgais i chwyddo'r swm o £210 a gasglwyd y llynedd. Manteisiwn ar golofnau'r Eco i dalu diolch ymlaen llaw i'r pentrefwyr am eu rhoddion.

Cynhelir gwasanaeth arbennig i lansiô'r Wythnos yn Eglwys Llandinorwig dan arweiniad y Parch Aled Edwards am 7 o'r gloch nos Lun, Mai 13, ac estynnir croeso cynnes i bawb.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI: Yn ddiweddar bu Pwyllgor yr Eisteddfod yn ystyried dyddiad sefydlog er cynnal yr eisteddfod, a phenwyd mai ar y Sadwrn olaf yn Hydref y'i cynhelir o hyn ymlaen. Mae'r trefniadau ar gyfer yr eisteddfod am eleni, sydd i'w chynnal yng Nghapel Ebeneser ar Hydref 26, yn mynd rhagddynt, gyda rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i chwblhau. Disgwylir y bydd y rhaglen i'w chael - yn rhad ac am ddim - cyn diwedd Mai.

PLAID CYMRU: Cyfarfu pwyllgor y gangen yn y Ganolfan. Penderfynwyd y byddai'r gangen yn

CHWERTHINLLYD

Tra'n ymweld â Brasilia, prifddinas Brazil, ddwy flynedd yn ôl, cynigiodd Ronald Reagan lwnc destun i "bobl Bolifia". Sylwedolodd ei gamgymeriad a cheisiodd esgusodi ei hun trwy ddweud mai meddwl am ei gyrchfan y diwrnod canlynol a wnaeth. Ond Bogota, Columbia oedd y dref honno!

Y diwrnod canlynol, ymddangosodd hysbyseb hanner tudalen yn un o brif bapurau newydd Brazil gyda'r pennawd "Mae pobl Bolifia yn gwerthfawrogi ymweliad Arlywydd Canada". Yn Nicaragua, roedd y stori ganlynol: "Nid yw Arlywydd Unol Daleithiau'r America yn gwybod ble mae nac yn gwybod i ble mae'n mynd."

cefnogi'r Cyng Pat Larsen yn ei hymdrech i gael ei hail-ethol yn gynghorydd sir ym mis Mai.

Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth oedd: £10, Rhif 32, Gwilym Williams, 22 Hafod Olau, £8.50, Rhif 43, Arthur Williams, 3 Pentre Helen.

Ebrill 9 cafwyd noson lwyddiannus iawn yn y Ganolfan yng nghwmni'r Cyng Pat Larsen a Mr Ieuan Wyn Jones, darpar-ymgeisydd y Blaid ar Ynys Môn. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Parry.

GWEITHGAREDDAU'R DYFODOL: Mai 22 - Noson yng nghwmni'r Cyng Dafydd Orwig yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

Mehefin 8: Taith ddirgel.

Gorffennaf 13: Helfa drysor.

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y 3edd wobr yn Pontins, Southport ar Ebrill 5 allan o 21 o fandiau.

Byddant yn awr yn mynd i'r prawf terfynol yn Pontins Prestatyn fis Hydref nesaf.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Ebrill - 1. £25, Miss D. Parry, 1 Minffordd, Llanrug; 2. £15, Miss M.J. Jones, Foel, Dinorwig, 3. £5, Mr Bryn Jones, 9 Tai Caradog, Deiniolen.

AT NATURIAETHWYR GWAEN GYNFI

Fe sylwoch mae'n debyg ar y coed pysl-mwnici fel y'u gelwir yng ngerddi Pen-y-bont, Corlannau, ac amryw eraill. Cofir am un yng ngardd 7 Rhes y Faenol flynyddoedd yn ôl. Pryd dechreuwyd yr arfer o'u plannu tybed, a phaham goeden dramor? Ai Stad y Faenol oedd yn gyfrifol.

YN EISIAU - GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI

Yng nghyfarfod cyffredinol yr Eco yn ddiweddar rhoddodd Tony Elliott rybudd o'i fwriad i ymddiswyddo o'i waith fel Golygydd Newyddion Pentrefi: ar ôl rhifyn Gorffennaf ac Awst. Felly bydd angen Golygydd newdd i ddechrau ar y gwaith gyda rhifyn Medi. Os oes rhywun â diddordeb yn y gwaith diddorol hwn (sydd yn cynnwys gwaith gosod yn ogystal ag ymweld â phentrefi'r fro i hel newyddion), cysylltwch os gwelwch yn dda â Tony Elliott, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun. (Ffôn: Llanberis 872438)

Cefnogwch ein Hysbysebwy

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

MEDAL GEE: Hyfrydwch o'r mwyaf yw i ni fel pentrefwyr gael datgan unwaith yn rhagor yr anrhydedd a ddaeth i ran un o gyn-drigolion y pentref. Y llynedd, fel y cofiwch, derbyniodd Miss L.A. Hughes gynt o Isfryn Fedal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Eleni, bydd Mrs Maggie Jones a fagwyd ym Mhenclegir yn derbyn yr un anrhydedd. Fel y mae'n wybyddus, chwaer yw i Mrs Hannah J. Jones, 7 Trem Eilian a da y cofia llawer ohonom am ei ffyddlondeb i'r Achos ym Mrynrefail yn arbennig felly yr Ysgol Sul. Coffa da hefyd am ei thad, Mr Owen Griffith Jones, Penclegir a'i gyfraniad neilltuol i ganiadaeth y cysegr. Gadawodd Mrs Jones y pentref dros hanner can mlynedd yn ôl ar Ynys Môn yn ardal Marianglas. Yn ystod ei chyfnod yno, bu'n aelod ffyddlon o eglwys M.C. Llangallo. Ers ychydig flynyddoedd bellach, ymgartrefodd yn Llangefni gan fynychu'r oedfaon yng Nghapel Moreia yn y dref honno. Dathlodd ei phen-blwydd yn ddiweddar yn 85 oed. Llongyfarchwn hi ar dderbyn ohoni y Fedal mewn cyfarfod arbennig yng Nghaernarfon Ebrill 25 a dymunwn bob bendith iddi i'r dyfodol.

CLWB Y MAMAU: Roedd y noson y mis hwn yng ngofal Mrs A. Hasson a daeth â nifer o dapiau 'Country and Western' i'r aelodau wrando arnynt. Mrs Rhian Jones a Mrs Helen Jones wnaeth y te ac enillwyd y raffl a gyflwynwyd gan Mrs Jackie Jones gan Mrs A. Hasson.

CWRS YSGOLION SUL: Ddydd Sadwrn, Ebrill 20 cynrychiolwyd Ysgol Sul MC Brynrefail ar gws yn ymwneud â gweithgareddau'r Ysgol Sul gan Mrs Carol Houston a Miss Lowri P. Roberts. Cynhaliwyd y cwrs yng Ngholeg y Santes Fair, Bangor, dan nawdd y "Scripture Union", lle roedd athrawon Ysgolion Sul dros Ogledd Cymru wedi cyd-gyfarfod. Treuliwyd diwrnod tra bendithiol yn ymdrin â gwahanol agweddau ar gyflwyno neges y Beibl i blant ac ieuencid ar ffurf gwersi, drama, cerddoriaeth a'r defnydd o offer gweledol.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Nos Fawrth, Ebrill 16, ymwelodd nifer o chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail â chyfarfod arbennig a drefnwyd dan nawdd Chwiorydd Dosbarth Padarn yn Festri Capel Mawr, Llanrug. Cyfle oedd hwn i gyfarfod â Mrs Menna Green, Coleg y Bala, Trefnydd gwaith y chwiorydd dan nawdd Bwrdd y Genhadaeth. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs John Morris. Dangoswyd ffilm ar waith y Genhadaeth Gartref a

threfnwyd ein bod fel chwiorydd Gofalaeth Brynrefail a Llanrug yn cynnal dau gyfarfod blyneddol. Etholwyd Mrs Pat Jones, Cae Coch, yn ysgrifenyddes y Gymdeithas a bydd y cyfarfod cyntaf yr Hydref nesaf i'w gynnal ym Mrynrefail, a gobeithiwn wahodd Mr James Clarke o Goleg y Bala i'n hannerch.

SEIAT UNDEBOL: Nos Fercher, Ebrill 17 cynhaliwyd Seiat Gofalaeth Brynrefail a Llanrug yn Festri Brynrefail. Arweiniwyd yn y gwasanaeth dechreuol gan y Gweinidog y Parch John Morris a'r Parch W.O. Roberts. Arweiniwyd yn y Seiat gan y Gweinidog. Cyflwynodd ei ragarweiniad i Thema'r seiadau fydd yn dilyn ar y testun 'Gweddi'. Ategwyd ei sylwadau gan y Parch W.O. Roberts a Mr Oswald Davies. Yr organyddes oedd Miss Lowri P. Roberts.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod mis Mawrth, cafodd yr aelodau amser difyr yng Ngwesty Lake View, Llanberis yn dathlu Gŵyl Ddewi. Hefyd yn ystod y mis daeth Mrs Annwen Hardwidge o Fethel i roi arddangosfa yn y Festri ar gynnyrch coluro y cwmni 'Naturally Yours'. Cafodd Catrin Gwyn a Mrs Megan Jones goluro eu hwynebau. Enillwyd dwy raffl y noson gan Mrs Phyllis Jones (gateau) a Mrs Jennie Williams (ŵy Pasg). Yng nghyfarfod mis Ebrill croesawodd y llywyddes ddwy aelod newydd sef Mrs Davies o Lanrug a Mrs Audrey Roberts. Ffurfiwyd dau dîm i chwarae 'Tri Gair Bach'. Mrs Rhian Jones a Mrs Gwyneth Williams oedd yr enillwyr. Mrs H.J. Jones a Mrs Val Davies oedd yn gyfrifol am y te.

DWYLO DROS Y MÔR

Record Band Aid Cymru

Er mwyn codi arian ar gyfer y newynog yn Ethiopia.

Os hoffech brynu'r record er mwyn yr achos teilwng hwn, cysylltwch â Mrs. Jane Roberts, 3 Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch neu yn yr Ysgol Gynradd.

STORFA

Mace

John a Roberta

Griffith

Sgwâr

Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd

Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!



BECWS DEINIOLLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Ebrill 9 cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cangen Llanrug o Ferched y Wawr yn Ffestri Capel Mawr Llanrug.

Llywyddwyd gan lywydd y gangen, Mrs Bethanne Williams. Agorwyd y cyfarfod gyda chân genedlaethol Merched y Wawr gyda Mrs Nancy Lovatt yn cyfeillio.

Llongyfarchwyd Mrs Carrie Owen, Tŷ Fry ar briodas ei mab, Dewi, a dymunwyd yn dda iddo ef a'i briod.

Dewiswyd tri aelod newydd ar y pwyllgor - Mrs Joyce Jones, Mrs Gwenda Roberts a Mrs Marina Williams. Hefyd dewiswyd Mrs Margaret Parry yn is-drysorydd.

Ar ddiwedd y cyfarfod mwynhawyd paned o de a sgwrs.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fai 14. Y gŵr gwadd fydd Mr Gareth Evans. Testun ei sgwrs fydd 'Planhigion Tŷ'. Dyma gyfarfod olaf y tymor. Yna, trefnir wibdaith flynyddol ar gyfer Mehefin 11. Croeso cynnes i'r aelodau i'r ddau gyfarfod.

DIOLCH: Dymuna Mr D. Glynn Owen ddiolch i bawb yn Llanrug a'r cyffiniau a gofiodd amdano yn ystod ei waeledd: derbyniodd fwy o lythyrau a chardiau a rhoddion, a negeseuau ar y ffôn nag y medr eu cydnabod ar hyn o bryd. Y mae'n gwella'n ara' deg, ac yn gobeithio cael dychwelyd i'w gartref at ddechrau mis Mehefin. Yn Birmingham y bydd tan ddechrau mis Mai, beth bynnag; yna fe â i Gaerdydd am ychydig, efallai.

Dymuna Dafydd a Janet Horman ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu plentyn cyntaf, Aron.

CAPEL PONTRHYTHALLT: Yn y gwasanaeth fore Sul ym Mhontrhythallt derbyniwyd Mrs Evan John Williams, Bro Rhyddallt yn gyflawn aelod, ac yn dilyn, cynhaliwyd y Sacrament o Fedydd pryd y bedyddiwyd Christopher David, baban Evan ac Alison Williams. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris.

GWELLHAD BUAN: Bu Iwan Llŷr, mab Elfed ac Eirian Roberts, Glanffynnon dan lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Da deall ei fod gartref erbyn hyn.

Mae Richard Ellis, 53 Bro Rhyddallt yn derbyn triniaeth yn yr Ysbyty. Dymunir gwellhad buan iddo.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd pnawn lau yn Ffestri Pontrhythallt, a dechreuwyd y gwasanaeth gan y llywydd, Mrs Williams, Bod Fair.

Cafwyd darlleniad o waith y ddiweddar Dr Kate Roberts, fel teyrnged iddi, gan Mrs E.W. Thomas, Dolwar, a diolchwyd iddi gan y llywydd. Croesawyd Mrs Ena Jones, i'r cyfarfod wedi gwaeledd a chyfeiriwyd at y golled ym marw Mrs Hughes, Isfryn. Rhoddwyd y te gan Miss E.W. Hedsor Villa a Mrs E.W. Thomas, Dolwar. Bydd y cyfarfod nesaf Mai 23 am 2 o'r gloch.

GWASANAETH DERBYN: Yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel Mawr bore Sul, Ebrill 14, fe dderbyniwyd un ar ddeg o bobl ifanc yn aelodau cyflawn o'r eglwys sef: Linda Morris, Wendy Jones, Nia Jones, Carys Lewis, Caryl Pugh, John Eilian Griffith, Gareth Jones, Kevin Lewis, Berwyn Owen, Nigel Thomas ac Iwan Williams.

Fel uchafbwynt i'r gwasanaeth fe weinyddwyd y Cymun Sanctaidd gan y gweinidog y Parch John Morris. Yr organyddes oedd Mrs Carys Jones.

Hefyd yn ystod y gwasanaeth fe

ddymunodd y gweinidog yn dda iawn: i Miss Carolyn Owen, Tegfryn, sydd newydd ddechrau cwrs nysio yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Y SEINDORF: Ar ôl ennill yn Preston ar Fawrth 24, aeth y seindorf i Pontins, Southport ar ddydd Gwener y Groglieth (Ebrill 5) i geisio yn rownd gyn-derfynol y Pontins Brass Band Championship. Daethant yn ail allan o 21 yno ac felly yn mynd drwodd i'r rownd derfynol ym Mhrestatyn ym mis Hydref. Y canlyniad llawn oedd: 1. East Manchester 186, 2. Llanrug 185, 3. Deiniolen 184, 4. Rainford 183, 5. Eccles 182, 6. Bury 181. Bydd y chwe seindorf yma yn cyfarfod a 12 arall o Hemsly a Weston Super Mare yn y rownd derfynol.

MARW: Bu farw Mrs Elizabeth Hughes, Isfryn, Pontrhythallt yn ei chartref Ebrill 8 yn 83 mlwydd oed.

Gweddwyd oedd Mrs Hughes i John Hughes. Bu'n fam dda i'w hunig fab, y Dr John Glyn Hughes ac Angharad, a nain annwyl iawn Gwydion, Gwenan a Dafydd. Bu gwasanaeth yn ei chartref ac yna yn amlogfa Bangor fore Gwener, Ebrill 12. Gwasanaethwyd gan y Parchn John Morris, W.O. Roberts a Mrs Mary Lloyd Williams.

Yr oedd y dyrfa luosog a ddaeth i dalu'r gymwynas olaf iddi, a'r galar a ymdaenodd dros gylch eang o deulu, cymdogion a chyfeillion o bell ac agos ar ôl derbyn y newydd trist am ei marwolaeth, yn rhy ddwfn i'w fynegi mewn geiriau. Canwyd yn ddwys ei hoff emyn 'Mi glywaf dyner lais' yn yr Amlogfa a darllenodd un o'i ffrindiau pennaf Mrs Mary Lloyd Williams ei hoff Salm "Yr Arglwydd yw fy mugail" yn y gwasanaeth yn y tŷ.

Y mae'r Dr John Glyn Hughes yn brifathro yn Ysgol Uwchradd Llanidloes ac yn fawr iawn ei barch gan rieni a phlant a phawb yn yr ardal.

Gwraig dawel a diymhongar ydoedd Mrs Hughes, a Christion gloyw. Erys atgofion hiraethus amdani. Enillai serch pawb â'i hadwaenai. Yr oedd ei ffyddlondeb yn y Capel ym Mhontrhythallt yn ddi-fwlch a'i charedigrwydd a'i haelioni i bawb ac at bob achos da yn ddi-drai. Yr oedd Mrs Hughes ymhlith y goreuon am adrodd ac actio mewn dramâu. Enillodd Dr John Glyn Hughes y wobr gyntaf am adrodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan oedd yn ifanc. Ni welwyd hi erioed bron heb ddilledyn "ar y gweill". Byddai wrth ei bodd yn gwau dilladau. Y mae ei choffadwriaeth yn fendigedig a'i henw yn berarogl.

Gwraig diron lawn daioni - dda ei ffydd

A phawb â pharch iddi:

Ymhob modd fe haeddodd hi, Fam dyner, gof amdani.

GLAN RHYDDALLT

Derbyniwyd rhoddion ariannol 'Er Cof' am Mrs Hughes. Cyflwynwyd y rhoddion i Drysorydd Eglwys Pontrhythallt lle yr oedd Mrs Hughes yn aelod gwerthfawr a ffyddlon.

Y mae'r Dra Mrs J. Glyn Hughes yn dymuno diolch i bawb am y rhoddion ac am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu galar. Y maent yn rhy lluosog i'w cydnabod yn bersonol.

CRONFA "TIDDLERS FOR TODDLERS" - Yn Siop y Co-op, casglwyd £60 mewn hanner ceiniogau tuag at y Gronfa uchod, sef Cronfa i gasglu arian tuag at ymchwil meddygol i afiechydon plant. Dymuna staff y Co-op ddiolch i'r holl gwsmeriaid tuag at y Gronfa.

DIOLCH: Dymuna Mrs Inigo Jones, Eilionwy ddiolch o galon i'r cymdogion, a'r llu cyfeillion, ymhell



PARTI CLYCHAU'R GRUG: Dyma enethod deniadol 'Clychau'r Grug' Llanrug. Eu harweinydd yw Glenys Griffith LRAM, GNSM, Bethel a'r cyfeilydd yw Lowri Prys Roberts, ATCL, Brynrefail.

Wedi'r tymor prysur y gaeaf a nifer o ddatiliadau Gŵyl Ddewi, bydd y côr yn diddanu ymwelwyr yng Ngwesty Victoria Llanberis yn ystod yr haf hwn. Gobeithio fod Jane ac Olwen (sy'n absennol o'r llun) yn gwella.



Plant Ysgol Gynradd Llanrug yn ffarwelio â'u hathrawes, Mrs M. Gould, a oedd yn gadael ar ddiwedd y tymor diwethaf i fod yn ddirprwy brifathrawes Ysgol Gynradd Llanllyfni.



Nia Lloyd Hughes o Lanrug (y ferch gyntaf ar y chwith), ac arlunwyr lleol eraill ar agoriad Oriel newydd yng Nghaernarfon.

ac agos, am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn wyth deg oed.

PRIODAS: Mawrth 30, yng Nghapel M.C. Bethel, Dyserth, Clwyd a'r Parch Ieuan Lloyd yn gweinyddu, priodwyd Dewi Prys, mab Mr a Mrs Ifan Owen, Tŷ Fry a Catrin merch Mr a Mrs Gruffudd Roberts, Drws y Coed, Lôn y Cwm, Dyserth. Yr organyddes oedd Mrs Eirlys Jones, Mr Dafydd Owen oedd y gwas, a'r forwyn Miss Gwyneth Jones. Cafwyd y wledd yng Ngwesty'r Llew Glas, Cwm, Dyserth.

Athrawes yw Catrin yn Rhuthun a Dewi yn adran gynllunio Ferodo.

DIOLCH: Dymuna Catrin a Dewi ddiolch yn gynnes i'w perthnasau, cymdogion a'u ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Nesta Pritchard ddiolch o galon am y rhodd hardd a dderbyniodd gan Ysgol Sul Pontrhythallt ar ei hymadawiad i Rhyl i fyw.

ANGEN LLE I'CH PABELL yn yr Eisteddfod Genedlaethol?

Croeso i Glwb Rygbi y Rhyl Mae tir y Clwb 'Y Waun' ar y ffordd B5429 rhwng Rhuddlan a Rhualt, a phentref Rhuddlan tua miltir o gae'r Eisteddfod.

PABELL: £2 y noson

Cyfleusterau:

Clwb modern - bar, lolfa a chegin.

Toiledau a chawodydd.

12 acer o dir.

Maes parcio helaeth.

Er mwyn sicrhau lle i'ch pabell

anfonwch £5.00 o flaendal i:

Mr a Mrs Derek Jones, Rhiwlas, 17

Glyn Avenue, Prestatyn.

Ffiniau'r Gorffennol

YMWELIAD MR A MRS ASSHETON SMITH Y FAENOL Â LLANBERIS 1887

'Coed-y-ddôl' oedd enw Llanberis ar y dechrau.

Ar ôl priodas Mr Assheton Smith, Y Faenol, sef perchennog Chwarel Llanberis, gyda Miss Laura Alice Stanhope Jones, ail ferch Mr Colin Stanhope Jones o'r swyddfa Ryfel, Llundain (o hen deulu Tre-ffos Môn), bu coelcerth enfawr ar ben yr Wyddfa. Cariwyd i'w chopu 20 tunnelli o pitch mewn barilau, trwy gynorthwy ceffylau. Oherwydd y niwl trwchus ni chaed ond cip-drem ar y tân.

Rhoddodd 'Yr Yswain o'r Faenol' 15,000 punt (pymtheng mil) yn "Anrheg Priodas" i'w denatiaid a'i weithwyr.

Fel hyn y canodd J.W. Thomas, Brynmelyn, y Waunfawr i'r amgylchiad: (Carneddod ddywedodd yr hanes.)

Y wawr sydd yn dyfod o'r dwyrain ar daen
A cherddorfa o adar yn canu o'i blaen:
Yr awel sy'n fywiog ar faenol a rhos
Yn symud pob niwlen - gweddillion y nos -
Er mwyn gwneud un diwrnod a brofai mor braf
A hyfryd fis Hefin, neu damaid o haf,
I fyned a dyfod a'i dwylaw yn rhydd
Yng nghwmni urddasol haul denol y dydd.
I chwifio banerau amrywiol a roed
Yn filoedd i hongian wrth gangen y coed,
Banerau o Lundain yw rhai sydd ar led,
Caernarfon a Bangor, mwy sy'n 'ready made'.
Ond rhydd yw yr heulwen ni fyn roddi ffaf
I faner 'rhen "Nelson" mwy na baner "Yr Afr".
Mor dlws yw'r bythynnod ar lechwedd Fach Wen.
Pob un gyda baner ar ochr ei ben.
Mae ar ben yr ysgol fanerau gryn gant
Yn nwyllau ei gilydd fel rhengau o blant:
Y clafdy sy'n codi ar flaen ei ddau droed
Gan guro ei ddwylo yng nghanol y coed.

Ar ddiwedd y diwrnod fe aethum yn ffôl
Yng nghwmni chwilfrydedd i lawr i Dre'r Ddôl.
Fan yma 'roedd bloddest yn rhodio yn rhydd
Trwy'r heol prydferthion rhialtwch y dydd:
Banerau a'u breichiau yn ddigon o hyd
I gyrraedd yn bontydd ar draws yr ystryd:
Banerau 'mhob ffenestr, o bob lliw a llun,
A baner llawenydd ar wyneb pob dyn:
Yng nghanol y berw, y myned a'r dod,
Gofynai chwilfrydedd pa beth oedd yn bod?
Ar hyn fe atebai'r cyflegrau o'r graig, -
Lwc dda i Ysgweiar y Faenol a'i wraig.
A throais, a gwelais cyn symud o'r fan
Fod cerbyd yr Yswain ar drothwy y Llan,
At ddrws y Ddarllenfa fe ddeuai y ddau,
A noddwyr llenyddiaeth yn cydlawenhau
Wrth weld eu hanrhydedd yn dyfod am dro
Ag allwedd o arian i agor ei chlo.
Mae'n symud yn syml oddiyma i'r Hall
Yng nghanol brwdfrydedd heb neb yn ddi-rôl.
A'r munud mae'r ddeuddyn yn dyfod trwy'r ddôr
Arlwysid banllefau fel tonnau y môr.
Esgynent i'r llwyfan yn siriol eu gwedd
Yng nghadair y Llywydd cymerodd ei sedd.
Mae'i briod mor hawddgar a dengar a'r dydd
A gwed yr "Hen Gymry" yn gwrido ei grudd:
Ac wele rhyw feinwen ddirodres a ddaw
Gan roddi blodeuglwm hardd iawn yn ei llaw.
Dilynai dau lenor diffuant o'i hôl
Ag enaint teimladau masnachwyr Tre'r Ddôl,
A'r Yswain arlwysai ei deimlad yn ffrwd
Mewn iaith mor amheuthyn heb ronyn o rŵd.

Y "Cyngerdd" aeth heibio, a gwenau y ddau
Yn dweud fod eu hysbryd yn cael ei foddhau.
Ar hyn fe ddibennwyd, a channoedd y sydd
Yn awr am goroni rhialtwch y dydd
Trwy dynnu'r pâr dedwydd mewn mawredd a pharch
Trwy ganol eu dinas heb gymorth 'run march,
Mae pawb ar darawiad yn glwm o dan glo,
Dylanwad rhyfeddol yw tyrfa'n cael tro.

Yng nghanol y berw 'rwy'n gweld rhyw hen 'chum'
Yn ymladd am ryddid i forthwyl y drum,
"Dum, dum, - 'rwan hogia dowch, dowch, neswch draw
Mae'n iawn i bob drumer gael libart i'w law."

Mae'r dyrfa yn dechreu ymsymud yn grand
Dan effaith dylanwad trydanol y band,
"Tan gwyllt" sydd yn esgyn i entych y ne'
Canwyllau yn llygaid pob tŷ yn y lle:
Gorymdaith ddiogel trwy dwnel o dân
Yn cael eu blaenori gan "Dduwies y Gan."
A thonnau mawreddog o fywiog "Hwre"
Yn lluchio llawenydd dros greigiau y lle,
Rhialtwch na welwyd ei debyg erioed,
A'i wreiddiau yng nghanol preswylwyr "Y Coed".

A'r ddau aethant adref yn llwythog eu rhan
O barch ac edmygedd trigolion "Y Llan".

J.W. THOMAS
Brynmelyn, Y Waunfawr

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

O'R YSBYTY: Da gweld y canlynol adref o'r gwahanol ysbytai - Ysbyty Gwynedd - Mrs Katie Griffith, Arwelfa a Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir; Mr Hugh Jones, Buarth Newydd o Ysbyty Yr Eryri; a Mr Richard G. Jones, Tan y Buarth Uchaf o Ysbyty Clatterbridge. Dymunir gwellhad buan i chwi.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel Dinorwig a'r cysylltiadau teuluol eraill ym marw chwaer Mrs Williams yng Nghaernarfon.

DRAMA: Bu Parti Drama Dinorwig yn diddori Sefydliad y Merched Penisarwaun gyda'i ddrama yn Neuadd yr Eglwys Penisarwaun yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD: Dymuniadau gorau i Mrs M.E. Jones, Tŷ'n Fawnog, Dinorwig ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 87 mlwydd oed ar Ebrill 7. Hefyd Mr Hugh Thomas 1 Bro Elidir ar gyrraedd ei 70 mlwydd oed ar Ebrill 30.

I'R YSBYTY: Dymuniadau gorau i Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian sy'n mynd i Ysbyty Gwynedd am lawdriniaeth.

COFION: Ein cofion i ddarllenwyr yr 'Eco' sydd wedi bod yn cwyno'n eu cartrefi'n ddiweddar. Gwellhad buan i chwi.

SYMUD Y FICER: Drwg gennym

ddeall fod y Ficer y Parch Aled Edwards yn symud i Fotwnnog i weinidogaethu. Pob lwc iddo yn yr ardal newydd.

DEINIOLLEN MOTORS: Maesibrydion fod y cwmni'n gorffen gwasanaethu'r ardal yn y dyfodol agos. Carem ddolch iddynt am wasanaeth diflino am flynyddoedd i'r ardal.

O BANTRI BETH



Prydau sydyn, di-drafferth

1. 'Waffles' Caws a thomato Digon i ddau.

Dwy 'waffle'

2 owns o gaws gwyn

Un tomato wedi ei chwarteru

Berw dŵr

Yn boeth:-

1. Rhoi'r 'waffles' dan y 'grill'

2. Torri sleisennau o gaws a'u gosod ar y 'waffles' gyda'r tomato, w3edyn
3. Poethi nes bo'r caws wedi toddi.

Yn oer:-

1. Tostio'r 'waffles'

2. Sleisennau o gaws arnynt, a chwarteri tomato a berw dŵr ar ben y cyfan.

Gellir defnyddio 'waffles' tatws os am flas gwahanol.

2. Wyau ar Seleri Digon i ddau

Un coesyn seleri wedi ei falu'n fân
2 owns o gaws Stilton wedi ei falu
2 dôst

2 ŵy wedi ei potsio

Cymysgwch y seleri a'r caws yn dda a'u rhoi dros y tōst. Gosod y cyfan o dan y 'grill' nes i'r caws doddi. Rhoi'r wyau wedi eu potsio ar ben y cyfan.

M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

D.LL. OWEN

**1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG**

FFÔN

C'FON 76699

**Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd**

**Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair**

ECO'R IFANC

PINIWN

Yn ddiweddar cynhaliwyd pŵl piniwn ymysg aelodau chweched dosbarth Ysgol Brynrefail. Ceisiwyd rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn ynglŷn â nifer o bynciau trafod y dydd. Diolch yn fawr i bawb a fu mor barod i ymateb. Dyma'r canlyniadau:

Pa mor ffyddiog ydych o gael gwaith parhaol ar ôl gadael ysgol/prifysgol/coleg?

Fyddiog iawn	27%
Amheus	49%
Ansicr iawn	24%

Ydych chi'n gobeithio cael gwaith o fewn Gwynedd?

Ydw	58%
Nac ydw	42%

Fydddech chi'n fodlon chwilio am waith oddi allan i Gymru?

Byddwn	79%
Na fyddwn	21%

Ydych chi'n cytuno bod athrawon yn llawn haeddu codiad cyflog sylweddol?

Ydw	79%
Nac ydw	21%

Dyma'r bum rhaglen fwyaf boblogaidd ar S4C

1. Brookside
2. Coleg
3. The Tube
4. Maes Chwarae
5. Cleciwr

Dyma'r bum rhaglen leiaf boblogaidd ar S4C

1. Pobl y Cwm
2. Byd ar Bedwar
3. Byd yn ei Le
4. Torri Gwynt
5. Diar Diar Doctor

Polisiau pa blaid seneddol sydd yn apelio fwyaf atoch chi?

Y Blaid Lafur	14%
Y Blaid Geidwadol	0%
Plaid Cymru	31%
Y Gynghrair (SDP)	7%
Dim un	48%

Sut fydddech chi'n mynd ati i geisio lleihau y lefel diweithdra?



"Yng Nghymru dylem gymryd mantais o'r ddelwedd draddodiadol Gymreig drwy gynhyrchu eitemau e.e. allan o lechi, y ddol Gymreig, a.y.y.b. a'u hallforio i wledydd Celtaidd fel Iwerddon, ac o ganlyniad rhoi gwaith mewn ffatrioedd i'r ifanc."

Bethan Jones (Llanberis)

"Tynnu allan o'r E.E.C. a rhoi mwy o arian i hyfforddi pobl ifanc mewn pynciau technegol."

Sandra Jones (Penisarwaun)



"Buddsoddi mwy o arian mewn diwydiannau yn y cartref."

Jackie Hobby (Cwm-y-glo)

"I ddechrau gwneud yn siŵr mai dim ond un swydd sydd gan bob person, dim swyddi nos ychwanegol. Os yn bosibl, os oes dau berson yn gweithio o fewn un teulu - rhannu gwaith."

Delyth Huws (Llanrug)

"Rhoi mwy o bresi'r cynghorau i greu gwaith yn yr ardal."

Peter Sharpe (Bethel)



"Dod â gwasanaeth cenedlaethol y fyddin yn ôl."

Steven Owen (Cwm-y-glo)

"Cynllun adeiladu tai i gartrefu pobl yr ardal - yn enwedig mewn trefi fel Lerpwl sy'n dioddef diweithdra ar raddfa uchel ac sydd hefyd â phroblemau cartrefu a safon byw isel."

Lynne Jones (Llanberis)

"Datblygu diwydiant y wlad a'i wneud yn fwy cystadleuol â'r gweddill o'r byd."

Rheinallt Parri (Deiniolen)



"Rhaid cael gwared o arfau niwclear a dod â gwaith newydd i fewn drwy wario pres ar y pylloedd glo - ac wrth gwrs rhaid cael gwared o Mrs Thatcher. Nid oes plaid arall i'n helpu ond un sosialaidd."

Siân Jones (Cwm-y-glo)

"Fy awgrym i yw codi oed ymadael yr ysgol i 18 a dod ag oed ymddeol i lawr i 50."

Eurwen Williams (Bethel)

BLAENORIAETHAU

Yn rhifyn diwethaf yr Eco roedd yn bleser cael llongyfarch ac ymfalchïo yn y ffaith fod cynifer o blant a phobl ifanc yr ardal wedi disgleirio yn Eisteddfodau'r Urdd ac ar y meysydd chwarae. Yn ôl adroddiad diweddaraf y Swyddfa Gymreig mae safonau addysg oddi fewn i ysgolion Cymru ar gynnydd - mae'r gyfran o ddisgyblion sydd yn gadael ysgol gydag o leiaf 5 lefel 'O' wedi cynyddu'n sylweddol i 28 % - ffigur sy'n ychydig uwch na'r un dros Loegr.

Yn wyneb y ffeithiau a'r tueddiadau hyn mae'n ofid calon bod ein pobl ifanc yn gorfod wynebu dyfodol mor ansicr ac ar adegau mor anobeithiol - a hynny ar bob lefel o gymhwyster addysgol. Ateb y 'doethwyr' yw creu pob math o gynlluniau creu gwaith gan honni eu bod yn fendithiol. Wrth gwrs, gellir dadlau bod cynllun fel y Y.T.S. yn fendithiol fel 'tamaid i aros pryd', ond y cwestiwn mawr yw - ble ar y ddaear mae'r PRYD? Meddylwch mewn difrif am rywun yn gwahodd gwestai i ginio mawreddog ac yna yn mynd ati i baratoi'r cwrs cyntaf yn unig!

Dyna'n syml yw'r sefyllfa, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynllun sylweddol wedi ei baratoi ar gyfer y buddsoddiad gwerthfawrocaf sydd ym meddiant y wlad - sef y genhedlaeth ifanc. Trefnydd busnes gwael yw hwnnw sy'n diystyru a chamdddefnyddio unrhyw fuddsoddiad gwerthfawr. Na, mae'n hen bryd i'r gwleidyddion ystyried eu blaenoriaethau. I unrhyw berson gwaraid, rhesymol nid yw'r ddadl economaidd fondigrybwyll bellach yn dal dŵr, mae'r cyfan mewn gwirionedd yn dibynnu'n llwyr ar flaenoriaethau. Ar hyn o bryd mae'n amlwg bod gwario 80 miliwn ar addasu llong danfor i suddo 'Belgrano' arall yn llawer pwysicach na sicrhau unrhyw ddyfodol disglair i'r genhedlaeth etifeddol.

E.E.

Pa ddatblygiad fydddech chi'n ei groesawu i ardal yr Eco - yn enwedig fel modd o gynnig gweithgaredd/adloniant i'r ifanc?



"Dylid adeiladu Canolfan Hamdden er mwyn i'r ieuenctid gael rhyw fath o bleser tra allan o waith a throir adeiladau adfaeliedig yn ganolfannau adloniant i'r ifanc."

Manon Williams (Bethel)



"Buaswn yn falch iawn o weld neuadd a fyddai'n agor bob dydd er mwyn i ieuenctid gael rhywle i fynd oddi ar y strydoedd."

Einir Parri (Ceunant)



"Datblygiad fyddwn yn ei groesawu yw clwb nos i'r rhai o dan ddeunaw - heb ddiod meddwol yno."

Delyth Jones (Llanrug)



"Mwy o ganolfannau hamdden, mwy o glybiau i'r ifanc yn unig, mwy o gyngherddau pop Cymraeg, mwy o gystadlaethau chwaraeon yn erbyn ysgolion a cholegau."

Susan Jones (Llanrug)



"Buasai canolfan adloniant yn cael ei groesawu gan lawer o bobl."

Gwyn Morris (Ceunant)

"Adeiladu canolfan chwaraeon ym mhob pentref yn yr ardal."

Dylan Jones (Deiniolen)

"Cael mwy o bethau i wneud a llefydd i gyfarfod, fel discos a chlybiau chwaraeon fel nad oes rhaid iddynt fynd i'r tafarnau am adloniant."

Helen Jones (Bethel)

"Dylai Oriel Eryri fod wedi ei gynllunio i fod yn ganolfan hamdden neu'n ganolfan i gynnal adloniant a lle i'r ieuenctid y fro gyfarfod fel na fyddai'n rhaid iddynt gerdded y strydoedd drwy'r dydd. Mae amgueddfa arall yn wastraff ar arian ac adnoddau."

Bethan Jones (Llanberis)

DR KATE ROBERTS

(1891-1985)

Rhai o blant yr ail flwyddyn yn Ysgol Brynrefail yn ein hatgoffa am "Frenhines ein Llên", fu farw ddydd Sul, Ebrill 14.

Nid rhyw lawer o ferched Cymru sydd yn dod yn enwog drwy Ewrop am ysgrifennu storiâu byrion. Ond mae un sydd wedi cyflawni'r gamp fedrus yma sef Kate Roberts a fu farw yn Ysbyty Dinbych ddydd Sul, Ebrill 14 yn 94 oed. I mi dynes yn cadw iddi hi ei hun oedd hi, dim yn cymysgu â busnes pobl eraill, ac er ei bod yn perthyn i mi ni chefais air â hi erioed.

Brodor o Rosgadfan oedd, lle disgrifiwyd ganddi yn fynyddig a'r grug porffor yn olygfa werth chweil yn yr haf. Mewn bwthyn o'r enw Cae'r Gors yr oedd yn byw, yn ferch i chwarelwr ac roedd ei thad yn aelod o gymdeithas fywiog y chwarel. Gan nad oedd llawer o geir yr adeg honno, chwaraeai ar lonydd - gemau fel marblis, top a neidio drwy gortyn. Hoffai ddringo mynyddoedd yr ardal a hel grug i roi fel sylfaen i'r das wair a'i ddefnyddio i gynnau tân yn y gaeaf, casglai lus hefyd. Bywyd heb deledu oedd ganddi, felly yr oedd rhaid iddi ddiddori ei hun. Ei hobi oedd actio a chanu yng nghôr yr ysgol.

Yn Rhostryfan y'i dysgwyd ac yno aeth i Ysgol y Sir yng Nghaernarfon ac yna i Brifysgol Bangor. Graddiodd cyn mynd yn athrawes. Gan nad oedd trafndiaeth, arferai gerdded tua milltir i ysgol Rhostryfan ac yn ôl. Âi â brechdanau i'r ysgol neu weithiau os yn lwcus, bara llaeth. Câl'r plant gansen am un ai siarad neu fod yn hwyr. Hoffai Kate Roberts siarad, yn dweud straeon yn y wers Fathemateg. Y prif gymeriad yn ei storiâu oedd rhyw ddafad.

Does dim llawer o blant yn hoffi mynd i'r Ysgol Sul yn awr, ond roedd Kate Roberts yn edrych ymlaen o hyd at Ysgol Sul. Aeth i'r Band of Hope ac i Gyfarfod y Plant, cyfarfodydd fel cyfarfodydd yr Urdd i ni. Yma roeddynt yn cael cystadlaethau fel cwis a darllen darn heb ei atalnodi. Roedd yr enillwyr yn cael tocyn yn wobwr ac ar ddiwedd y mis yn ei gyfnewid am bres.

Yn ystod awr ginio'r ysgol arferai grwydro'r caeau, hel blodau, a mwyar duon ym Medi. Weithiau câl weld defaid yn cael eu golchi. Plant tlawd ond eto hapus oeddynt, yn mwynhau da-da fel licis-bôl, lympiau brith, hanci panci ac 'extra strong'.

Am ei hardal ysgrifennodd lyfrau - ardal y chwarel, fel 'Y Lôn Wen', 'Te yn y Grug'. Yn 'Te yn y Grug' mae ganddi blant yn gymeriadau fel yr hen garidym Winni. Cymeriad powld yw Winni yn rhegi. Mae o hyd yn cael chwip din am gael tyllau yn ei sannau. Ac ar yr ochr arall mae Begw druan sy'n holi ac yn ddiniwed. Mae hanes amdanynt yn bwyta jeli Begw a hithau wedi bod yn edrych ymlaen drwy'r pnawn am y jeli.

Hi yw awdur 'Laura Jones', 'O Gors y Bryniau' a 'Gobaith a Straeon Eraill'. Ysgrifennai straeon diflas a dwfn, efallai ei bod yn hiraethu am ei gŵr, Morris Williams. Hi brynodd y cwmni argraffu "Gwasg Gee" yn Ninbych ac wedi i'w gŵr farw rhedodd y cwmni - a argraffodd 'Y Faner'.

Gwelaf hi'n ddynes flin ac yn

anodd iawn ei phlesio, fel Brenhines Victoria, wedi i'w gŵr farw. Ond er ei storiâu dwys maent wedi cael eu mwynhau gan y Cymry a dal i roi mwynhad i'r Cymry a wnânt.

SIONED WILLIAMS
Penisarwaun

DR KATE ROBERTS WEDI MARW OND MAE'N DAL I FYW YN EIN MEDDYLIAU

Ar ddydd Sul y pedwerydd ar ddeg o Ebrill, bu farw Dr Kate Roberts yn 94 oed. Ni wyddwn i lawer amdani tan ei marwolaeth, heblaw am y ffaith iddi ysgrifennu llawer o lyfrau. Roeddwn wedi gweld ei llun ar wal ddosbarth yn yr ysgol gynradd - edrychai'n hynafol, gyda'r rhychau ar ei hwyneb yn gwneud iddi edrych yn berson sur a blin.

Ychydig a wyddwn fod iddi gyfoeth o lenyddiaeth, a haeddai'r teitl a roddwyd iddi gan y Cymry sef 'brenhines ein Llên'.

Gwelais raglen deyrnged iddi ar y teledu drannoeth ei marw. Clywais hi'n sôn am ei llyfrau - 'Te yn y Grug', 'Y Lôn Wen', 'Ffair Gaeaf' ac ati, a chododd hyn yr awydd yno i ddechrau eu darllen. Ac yn wir, dyna a wneuthum.

Roeddwn wedi cael ychydig o flas ar 'Te yn y Grug' o'r blaen, ond ar ôl darllen y stori gyntaf eilwaith dechreuais ei mwynhau, nid cymaint â nofelau rhywun fel T. Llew Jones efallai - roeddynt braidd yn ddigalon i mi, ac yn anodd i mi ddeall beth yr oedd yn ei feddwl bob amser. Ond dyna ni, dyma arddull Kate Roberts.

Roedd Kate Roberts yn byw mewn lle arbennig o dws ynghanol mynyddoedd yn Rhosgadfan, lle gallai weld drosodd i Sir Fôn ar ddyddiau braf. Clywais hi'n dweud ei bod yn mynd yn ôl i'w chartref yno, tra'n byw yn Ninbych, drwy gyfrwng ei storiâu byrion.

Ni chafodd fywyd braf iawn yn yr ysgol gan ei bod yn gorfod cerdded y filltir o'i chartref i'r ysgol yn Rhostryfan bob diwrnod. Arferai ddweud storiâu wrth ei ffrind yn y wers rifydddeg - mae'n rhaid mai dyma pryd y magwyd ei diddordeb yn y grefft.

Ardal o chwareli a thyddynnod oedd Rhosgadfan, ond er yn dlawd, roedd trigolion yr ardal yn hapus iawn, a'r plant yn diddori eu hunain â gemau fel marblis a thop.

Rwy'n siŵr fod plentyndod Kate Roberts wedi bod yn debyg iawn i un Begw yn 'Te yn y Grug', a'r gymdeithas glas yn troi o amgylch bywyd y capel.

Y mae cyfraniad Kate Roberts i lenyddiaeth Gymraeg yn amhrisiadwy a'r bwlch fydd ar ei hôl yn un anodd iawn i'w lenwi.

ANGHARAD PRICE
Bethel

APÊL

Fe hoffwn dderbyn ymateb i dudalen 'Eco'r Ifanc' ar unrhyw ffurf - llythyrau, erthyglau neu adroddiadau am weithgareddau'r ifanc yn y fro. Peidiwch â bod yn swil cysyllter ag Edward Elias, Gwên y Wawr, Glanffynnon, Llanrug.

ADRODDWRAIG Y FLWYDDYN



Dyma i chwi ferch ifanc o Ddeiniolen sydd wedi bod yn eithriadol o brysur ers fis Hydref diwethaf. Mae'n amlwg bod Lyndsey Vaughn Parry yn adroddwraig o fri oherwydd mae wedi ennill mewn amryw o eisteddfod o Ddeiniolen i ben draw Llŷn. I goroni'r cwbl daeth i'r brig yn Eisteddfod Sir yr Urdd am adrodd dan 8 oed - a hithau yn ddim ond 5 oed. Da iawn Lyndsey a phob lwc i tithau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd dros y Sulgwyn.

PLANNU COED



Yn ddiweddar daeth ymwelydd diddorol i dreulio bore gyda phlant Ysgol Gynradd Cwm-y-glo. Mr William Jones yw Warden Coed Mair, Maentwrog, aeth â'r plant i weld Coedwig Llwyncoed ble cafwyd gwers ddifyr tu hwnt ar drin coed. Fel canlyniad, bu'r plant wrthi'n ddiweddarach yn plannu coed ar y llain tir y tu allan i'r ysgol.



D.W. DAVIES

CONTRACTWR
CLUDO

LLWYTHI BYCHAIN
5 STRYD THOMAS

LLANBERIS

Tel: 872556

Llogi Cymysgwyr

Concrit

Clirio Safleoedd

Clirio Tai

am brisiau

cystadleuol

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank

Stryd Fawr

LLANBERIS

FFÔN:

LLANBERIS 871470

Contractau

Weirio Tai

Cawodydd Trydan

ac ati

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

ATGOFION CYNNAR AM ARDAL Y WAENFAWR

(gan John Owen Harvey, Llangefni)

ARFERION YR HOGIA'

NID oedd yn raid i ni yr hogia ddarllen rhyw lawer o lyfrau antur, dim ond ambell un fel Robinson Crusoe neu hanes Capten Scott a'i griw dewr oedd yn ddigon i danio ein dychymyg.

Roedd pob awr allan o'r ysgol, ar ôl pryd sydyn o fwyd, yn gyfle i ni oedd yn byw yn y rhan ganol y Waunfawr, redeg am goed y Cynnant i chwarae. Dyna chi le gwyh oedd hwnnw. Ni fedra neb dynol wneud y fath le, cael ei greu wnaeth y lle, gyda hogia mewn golwg. Gwyddwn am bob modfedd ohono, pob coeden a chraig, pob llwybr, twll cwnigen a'r llefydd y nytha adar.

Yn is i lawr i'r ffordd garegog i gyfeiriad fferm Cynnant rhedai'r cledrau o orsaf Dinas bell i'r orsaf yn y Waun. Yna yn rhedeg yn braf gwelid yr afon Gwyrfa, yr afon bwysicaf yn y byd i ni. Yn hon y byddem yn ymdrochi heb fawr amdanom pob haf ar ôl troead y rhod.

Rhedeg, dim cerdded, y ffordd gynta i lawr am y Llythyrdy, yna heibio i'r Eglwys a thros ben giât cae Harry Wyn ac yn syth am Llyn Tro, a'r genod yn cadw draw, drwy fynd i'r Orsaf a cherdded yn araf ar hyd y lledrau.

Weithiau byddem yn adeiladu lle bach cuddiedig i ni ein hunain gan dorri brigau a chael dail, brwyn a rhedyn i wneud y to a'r waliau. Dro arall, dewis y goeden ora gyda digon o frigau mawr yn y canol, yna adeiladu llawr a tho yn uchel i fyny. Hoelion mawr chwe modfedd fyddai'n ffordd ni o ddringo y rhan fwyaf anodd o'r goeden. Os oedd rhaff yn eisiau, byddem yn plethu un gyda chortyn a gawn i oddi wrth boc ffrwythau'n ein siop ni.

Er mwyn cael newid, byddem yn chwarae ar yr amryw ynysioedd bach yn yr afon ger y bompren a fferm Glanrafon. Yno y byddem am ddyrnodiau a phawb yn dwad â rhywbeth i'w fwyta neu i gael ei goginio. Yr arferiad oedd gwneud twll yn y ddaear ac yna gwneud tân coed. Wedi'r tân fynd yn goch rhoi tatws oedd yn eu crwyn ar waelod y twll a disgwyl i'r gwres dreiddio drwyddynt. Yn wir yr oedd blas arbennig ar bopeth fwytem yn yr awyr agored a diod o laeth yn torri syched.

Mor brysur oeddem, toedd yna rywbeth i'w wneud bob amser – fel hel coed tân i Mam a Modryb – llusgo brigau a chwythwyd i lawr o

hen goed yn y gwynt. Fe welid ni tu allan i'r tai yn llifio neu dorri'r coed â bwyell yn ddarnau pwrpasol i gyneu neu eu rhoi ar y tân agored yn y cartrefi.

Yn yr haf gwelid ni'n cychwyn gyda phiseri yn ein llaw, i hel llus ar allt Coed Mawr, neu waelodion Moel Eilian. Tro arall am fwyar duon neu gasglu cnau o'r coed cyll. Lawer gwaith bûm yn cludo mewn sachau brigau bach y grug ar ôl llosgi'r rhan honno o'r mynydd. Dyna chi hwyl oedd rowlio'r sachau i lawr ochrau serth y mynydd.

Amser cynhaeaf gwair, ac wedyn yr yd, roedd llawer o bobol a phlant yn cymryd rhan gyda chribin, picwach, y delyn neu efallai cael cyfle ar y gribin fawr ar olwynion os yn hogyn mawr. Gweithia rhai ohonom ar ben y das yn y tŷ gwair, cofiaf gymaint o lwch oedd yn y fan honno. Y swper ar y diwedd oedd y rhodd, ac yn aml iawn yn cynnwys pwddin reis.

Beth am y blodau fyddai hogyn a merch yn eu casglu yn dusw i fynd adref i Mam, Nain neu Fodryb. Briallu, clychau'r gog, fioled neu'r iris felyn a dyfai mewn llefydd gwlyb. Yn eu hamser efallai mai brigau cynffon llo bach, neu grug porphor, heb anghofio'r celyn tlws o gwmpas y Nadolig.

Mwynhau ein gilydd, dyna wnaem, heb gostio dim, ond cofiwch, cawsom fwy o lonydd gan berchen tir a ffermwyr. Mae llawer o resymau dros y gwahaniaeth sydd yn bodoli heddiw ac efallai gwers neu ddwy i'w dysgu. Gwneud rheolau bach ein hunain a rhoi cymorth i'r amaethwr pob cyfle oedd y rheswm mwya. Cofiw'n wersi ein hathrawon ysgol ddyddiol, ac Ysgol Sul, heb anghofio geiriau Mam a Thad. Llawer gwaith y

cawsom ni fechgyn air o gyngor gan blismon y pentref – Mr Henderson wrth ei enw.

Y ni hogiau ddwedent ar frys os yn gweld anifail, yn ddafad, neu oen, wedi crwydro i'r afon neu'r ffordd. O ddyfod ar draws lliadiart yn agored byddem yn ei chau bob amser. Wrth fynd dros ben wal ni feiddiwn dynnu carreg i lawr rhag i'r anifeiliaid gymryd mantais a cheisio dianc.

Er mai cymarol ysgafn fyddai'r drafnidiaeth ar y ffordd fawr o'i chymaru â heddiw byddai gwahanol loriau, cerbydau a moduron tair olwyn i'w gweld o un pen blwyddyn i'r llall. Moduron gwyn a rhai glas o ben arall y pentref oedd y rhai lleol ond yr oedd rhai gwyrdd yn rhyw ddechrau rhedeg gan gludo dynion i'r chwarel yn Llanberis.

Dyna chi olygfa oedd gweld ager yn chwythu trwy gorn y lori fawr Morris and Jones, gyda cherbyd y tu ôl a llwythi trwm o flawd, wedi dwad yn araf i fyny'r eltydd serth o Gaernarfon. Dro arall, teulu mawr o Sipsiwn ddi yn hamddenol drwy'r pentref. Pedair neu bump men Sipsiwn gydag ambell geffyl dau-liw yn rhwym wrth raff tu ôl, a dau neu dri milgi yn cael eu tynnu wrth y gyddfau.

Gwelwn droliau yn cario gwahanol bethau i'r ffermydd. Yn y bore deuai'r llefrith i dai mewn float lefrith a'r ceffyl yn gwybod lle trigai pob cwsmer. Llefrith mewn poteli – choelia'i fawr, pawb yn cael llefrith wedi dod allan o'r twb mawr yn cael

ei fesur yn beint neu hanner peint a'i dywallt i jwg. Cawsom ni ein llefrith o Fferm Tai Isa ar hyd y blynyddoedd ac ymenyn ffres o Glanrafon.

Gwelais lawer cynhebrwng 'Mawr' gyda phobol tu allan i'r tŷ, ac yn aml ar draws y ffordd, gan ddal trafnidiaeth i fyny. Ar y bwrdd yn y tŷ byddai lliain gwyn a'r mwyafrif o'r galarwyr yn mynd i mewn yn drefnus i'r tŷ gan ysgwyd llaw â'r teulu a rhoi arian ar y bwrdd er cymorth at y costau. Byddai gwasanaeth yn cymryd lle a chanu da bob amser gyda chodwr canu un o'r Capeli yn taro'r nodau cyntaf.

Os yr oedd digon o fodd gan y teulu yna cynhebrwng bach gymerai le a dim casgliad.

Yn Betws Garmon y cleddid y rhan fwyaf. Roedd hers ddu yn perthyn i drigolion y pentref ar gael am flynyddoedd, ac adeiladwyd cwt arbennig iddi hanner ffordd rhwng y Groeslon a gwaelod isaf y Waun. Mae'n siŵr fod rhyw berchennog ceffyl du ei liw yn rhoi ei fenthg pan oedd angen.

Pan ddeuai amser dyrnu byddai clamp o beiriant cryf yn tynnu'r dyrnwr mawr o fferm i fferm. Hi fyddai'n dal i weithio ar ôl cyrraedd y buarth ddyrnu gan droi olwynion a rhwymyn hir yn cysylltu er yn gryn bellter oddi wrth ei gilydd.

Y peth lleiaf welais i ar y ffordd fawr oedd cardodyn druan yn cerdded ar ddau stwmp o goesau gan ddefnyddio ei ddwy law fel bagla.

YSGOL Y WAUNFAWR – 1940



LLun o ddosbarth ysgol y Waunfawr Gorffennaf 1940 (trwy garedigrwydd Mr Eurwyn Williams, Parc, Waunfawr). Gwelir ei chwaer, Ann y gyntaf o'r chwith yn y rhes flaen.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202


TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)



GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
– ALLWCH CHI FFFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

DIOLCH: Dymuna Gwilym a Mair Williams, Fferm Bodhyfryd, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ar ddatliad eu priodas arian, Ebrill 2.

MERCHED Y WAWR: Cyfarfu'r gangen nos lau, Mawrth 28 o dan llywyddiaeth Mrs Olwen Williams. Cyfeiriwyd at waeledd Miss Bessie M. Jones a dymunwyd adferiad buan iddi. Cyfeiriwyd hefyd at arhosiad Mrs Llinos Cadwaladr yn yr ysbyty ac anfonwyd cofion ati. Bydd Pwyllgor Rhanbarth Merched y Wawr dros yr Anabl yn gofalu am y lluniaeth yn Rali'r Ffermwyr leuanc yng Nglynllifon ym mis Mai. A wnaiff y rhai sy'n barod i helpu yng Nglynllifon neu roi arian a bwyd gysylltu â Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen os gwelwch yn dda. Y siaradwr oedd Mr Michael Thomas, cigydd o Gaernarfon, a rhoddodd arddangosiad o drin cig. Cafodd yr aelodau fwynhad mawr o wrando ar ei sgwrs ddiddorol. Diolchwyd iddo gan Mrs Mary Vaughan Jones. Rhoddwyd y raffl, a enillwyd gan Mrs Hughes, Llys Meredydd, gan Mrs Miles. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 25 gydag ymarfer at Miri Mai. Oherwydd hyn, gohiriwyd noson 'Haw i Holi', tan rhywdd yn y dyfodol.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yn eu cyfarfod diwethaf mwynhaodd aelodau Sefydliad y Merched sgwrs ddiddorol iawn, gyda sleidiau, yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr. Roedd Mrs Jones wedi bod yn Rwsia ym mis Medi diwethaf, a rhoddodd hanes ei gwyliau yn hynod o fanwl i'r aelodau ynghyd â thipyn o hanes y wlad. Diolchwyd iddi gan Mrs Sexton. Darllenodd Mrs Pat Parry, y Llywydd, y llythyr misol a thynnodd sylw'r aelodau at amryw o weithgareddau sydd i'w cynnal yn ystod y misoedd nesaf. Gobeithir trefnu taith gyda'r nos i rhywle o ddiddordeb yn fuan, a gofynnodd y Llywydd am awgrymiadau gan yr aelodau. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Mrs Sexton, gan Mrs Missen.

RADIO YSBYTY GWYNEDD: Casglwyd y swm o £70 yn y pentre tuag at radio Ysbyty Gwynedd, a dymuna'r trefnydd Mr Rol Williams ddiolch i bawb am eu cefnogaeth hael.

YN YR YSBYTY: mae Mrs Hughes, 1 Tref Eilian, ac anfonwn ein cofion gorau ati a'n dymuniadau am wellhad buan.

YR YSBYTY: Da yw deall bod amryw

o drigolion y pentref yn gwella ar ôl dychwelyd adref o'r ysbyty, sef Mrs Mary Pierce, Tref Eilian; Mrs Llinos Cadwaladr, Rhes Glyn Afon; Mr R. Jones, Gardden; Huw Ynyr, Tan y Fron; Aled Griffiths, Melwyn; Mr Glyn Williams, Tref Eilian a Mr Elfed Roberts, Dwyros.

Bydd Mr Glyn Williams, Tref Eilian yn dychwelyd i'r ysbyty yn o fuan am ychwaneg o driniaeth ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddo.

Dymuniadau gorau hefyd i Mr Elfed Roberts, Dwyros ar ei ymddeoliad, a gobeithiwn yn arw caiff lwyr wellhad buan.

CLWB GWYRFAL: Llywyddwyd cyfarfod y Clwb ar Fawrth 28 gan Mrs Morgan Jones. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Roberts, Elwy House, ar ôl damwain yn y cartref. Cafwyd bawn difyr yng nghwmni Mr Siôn Rhys Jones yn cyflwyno recordiau o gerddoriaeth clasurol a hefyd rhai o'r hen ffefrynnau Cymraeg.


Diolchwyd iddo gan Mr Evan Hughes a hefyd i Mrs Jennifred Jones a Mrs Eluned Roberts am baratoi'r te. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Bracegirdle.

CLWB GWYRFAL: Cynhaliwyd cyfarfod dydd lau, Ebrill 11 yn y Ganolfan gyda Mrs Morgan Jones yn y gadair. Cydymdeimlwyd â Mrs Bracegirdle yn ei phrofedigaeth o golli brawd, Mr Humphrey Wyn. Da oedd gweld rhai o'r aelodau ffyddlon yn ôl yn y clwb ar ôl gwaeledd yn ystod y gaeaf caled a dymuno iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn.

Y gŵr gwadd oedd Mr Duncan Brown sydd yn Bennaeth Warden Cyngor Gwarchod Natur ac wedi dod yn ôl i'w gynefin. Cawsom bleser i'r glust a'r llygaid; gweld lluniau hyfryd ar ôl sgwrs ar y testun 'O'r Môr i'r Mynydd' mewn Cymraeg graenus. Cawsom olwg ar wahanol fathau o gynefin cefn-gwlad - anifeiliaid, a phlanhigion, pysgod, blodau'r twyni tywod ac adar a choed. Mrs Idris Jones, yr ysgrifennydd, a dalodd deyrnged i Duncan a diolch iddo yn gynnes iawn a'i groesawu'n ôl i'w gynefin yntau yn y Waun.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 25 i drafod rhaglen am y tymor nesaf, a dewis pwyllgor a threfnu Noson Agored a chwpaned ac ambell i stondin ar Mai 3 am 6.30 yn y Ganolfan.

CANOLFAN WAUNFAWR: Mae pwyllgor y Ganolfan wedi penodi Carys Jones yn ofalwraig i'r Ganolfan. Diolchir i Barbara Griffith am lenwi'r bwlch mor barod dros gyfnod byr. Trefnwyd swper awyr agored ar gaeau'r Ganolfan ar Fehefin 28. Croeso i bawb i ddod i gefnogi'r Ganolfan.



CRONFA'R GANOLFAN: Dyma enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: 1. £40, T.G. Williams, 17 Tref Eilian, 2. £25, Mrs M. Owen, Bryn Gwylan, 3. £10, D.E. Caulfield, Pentre Bach.

DIOLCH: Dymuna Alun Williams, Bro Waun ar ran Pwyllgor Caernarfon o 'Muscular Dystrophy' ddiolch i bobl yr ardal ac i bawb a gyfrannodd i wneud y Cyngerdd ar Fawrth 22 yn un mor llwyddiannus. Gwnaethpwyd elw o £207. Diolch hefyd i staff a phlant yr ysgol am eu rhodd o £20.

CYDYMDEIMLWN: yn fawr â Mrs Catherine Bracegirdle, Tref Eilian a Miss Jane Ellen Hughes, ar golli brawd, sef Mr Humphrey Wyn Hughes. Hefyd â Mr T.G. Williams, Tref Eilian ar golli chwaer.

LLONGYFARCHIADAU: i Malcolm Roberts, Bryn Golau ar ei lwyddiant gyda'i gi mewn sioe yn yr Amwythig. - I Mr a Mrs Stanley Williams, Cefn Coed, ar ddatlu eu priodas arian; Mr a Mrs Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd (priodas arian) ac hefyd Mr a Mrs Richard Rowlands, 5 Bryn Golau, (priodas arian).

- I Bethan Wynne Williams, Fferm Bodhyfryd, ar gyrraedd ei deunaw oed, Ebrill 27.

- I Mrs Myra Turner, Collfryn, ar ennill Tarian am y Brif Adroddiad yn Eisteddfod y Groeslon; Tlws a Chwpan Arian am yr Adroddiad Ysgrthurol a'r Brif Adroddiad yn Eisteddfod y Bontnewydd; y wobr gyntaf ar y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Mynytho; a'r ail wobr ar y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Criccieth.

- I Alun Williams, Bro Waun, ar ennill Cwpan Arian ar ganu Emyr, a'r wobr gyntaf ar y ddeuawd hefo John Eifion Jones, yn Eisteddfod y Bontnewydd; trydydd ar y Brif Unawd ac ail ar yr Unawd Gymraeg yn Eisteddfod Pandy Tudur ger Llanrwst ar ddydd Llun y Pasg; y wobr gyntaf ar y ddeuawd hefo John Eifion Jones yn Eisteddfod Garndolbenmaen; cydradd ail ar y Brif Unawd, ail ar yr Unawd Gymraeg, ail am ganu Emyr, ail ar y Gân Werin, a chyntaf ar y ddeuawd

YR YSGOL: Enillodd tîm pêl-droed saith-bob-ochr bencampwriaeth Cymdeithas Chwaraeon Cylch Arfon i Ysgolion Grŵp 3 neu lai. Aelodau'r tîm oedd Michael E. Owen, Kevin Tame, Osian Gwynedd, Gareth James, Neil Owen, Rhodri Siôn, Meilir Owen, Rhys Siôn.

Sgoriodd Kevin Tame 16 gôl yn y pum gêm ac Osian Gwynedd 7.

Llongyfarchiadau hefyd i'r gôl-geidwad - dim ond dwy gôl a aeth heibio iddo.

hefo John Eifion Jones yn Eisteddfod Criccieth.

ARHOLIADAU CERDDOROL: Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant:

THEORI: Gradd 1: Wayne Owen, Dôl Erddi; Gradd 2: Euros Wyn, Y Frenni; Gradd 4: Huw Ynyr, Tan y Fron.

PIANO: Gradd 1: Elin Gwilym, Lliadiart Wen (gyda Theilyngdod); Gradd 2: Bethan Wyn, Y Frenni; Rhys Siôn, Pant Teg; Gradd 3: Gwyn Thomas, Treforfan; Osian Gwynedd, Nant (gyda Theilyngdod); Gradd 4: Helen Hughes, Tref Eilian.

BASSOON: Gradd 7: Anthony Marston, Blaen y Nant (gyda Theilyngdod).

YR YSGOL FEITHRIN: Nos Wener, Mawrth 29, cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn er budd yr Ysgol Feithrin. Enillwyr y raffl oedd fel â ganlyn:

1. Marlene Elias - Bocs Nwyddau, 2. Elizabeth Jones, Bryn Teg - Bocs Ffrwythau; 3. Bethan Williams, Bryn Meurig - Bocs Nwyddau.

Enillwyd 'Ynys y Trysor' gan Rhys Siôn a'r Bara Brith gan Nan Roberts, Pant Afon. Diolch i bawb am eu rhoddion hael ac am eu cefnogaeth.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Mawrth: 1. Emrys Lloyd Hughes, Treflan Isa, 2. Don Roberts, Sŵn y Gwynt, 3. Mrs K. Hughes, Llys Meredydd.


YR URDD: Bydd bws yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd bore dydd Mawrth, Mai 28 i fynd â'r plant sy'n cystadlu yno. Bydd Suzanne Jacobs ac Elliw Iwan yn cystadlu ar eu hofferynnau a bydd y parti unsain a pharti Cerdd Dant dan 15 oed yn cystadlu hefyd. Pob lwc iddynt i gyd.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb i ddod i Gaerdydd ar y bws (ac aros un noson), cysylltwch â Beryl Jones, Dol y Coed - rhif ffôn: 345.

CROESO

Yn dilyn taith gerddorol lwyddiannus yn nhalaith Kainuu, y Ffindir, mae teuluoedd Blaen-y-Nant a'r Fach Goch yn cael cyfle i ddiolch am y croeso gafodd y plant yn y Ffindir, pan ddaw 6 aelod o Gerddorfa leuenctid Kajaani i aros i'r pentref am 5 nwrnod o Ebrill 29ain. Cynhelir cyngerdd yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor gyda chôr, aelodau o gerddorffeydd rhanbarthol a grŵp Siamber y Coleg. Dyma gyfraniad cerddorion ifanc y cylch i ddathliadau Blwyddyn Gerdd Ewrop a Blwyddyn Ryng-genedlaethol yr leuenctid.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Busnes newydd ym Mro'r Eco...

**EMYR
JONES**

PLYMAR
PEIRIANNYDD

GWRESOGI

GWAITH

INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon

**LLANRUG
Caernarfon.**

3513

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

DIOLCH: Dymuna Mrs Nesta Pritchard ddiolch yn fawr iawn am yr anrheg gwerthfawr a dderbyniodd gan Glwb yr Heulwen. Bydd yn fuddiol iawn yn ei chartref newydd yn y Rhyl.

YSGOL TAN-Y-COED: Ein dymuniadau gorau i Mr Len Jones ar ei gwrs yn Nottingham a chroeso cynnes i Mr Gwyn Mowl. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith. Cofiwch fod yr ysgol ar gau Mai 6.

YR URDD: Mawrth 27 daeth tymor gweithgareddau'r Urdd i ben gyda Helfa Drysor a drefnwyd gan Mr Len Jones. Rhannwyd y plant fesul dau i ddatrys pymtheg o dasgiau o amgylch yr ysgol. Yr enillwyr gyda 14 o farciau oedd Louise a Bedwyr. Yr oedd y rhieni wedi darparu lluniaeth ysgafn iddynt a chafodd pob un ohonynt wy Pasg a melysion i fynd adref.

Carem fel athrawon ddatgan ein diolch i chwi famau am eich cefnogaeth drwy'r tymor a mawr ein diolch i Elisabeth Jones a Mary Eliot am wneud y trefniadau. Edrychwn ymlaen am eich cydweithrediad y flwyddyn nesaf.

Dymuniadau gorau i'n plant o Ysgol Brynrefail fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ac i bawb sy'n cystadlu o fro'r Eco.

CAPEL BOSRA: Ebrill 10 bu gwasanaeth angladdol Mrs Miriam Hughes pryd y gwasanaethwyd gan y Parch Eryl Lloyd Davies a'r Parch Tudor Lloyd Davies.

Bydd trip blynyddol yr Ysgol Sul yn mynd i'r Rhyl eto eleni ar y Sadwrn cyntaf o Orffennaf. Enwau i Mrs Elisabeth Jones cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda.

EGLWYS SANTES HELEN: Bore Sul y Blodau daeth plant Ysgol Sul Bosra a phlant yr Eglwys at ei gilydd a gorymdeithio o Siop Gron i'r Eglwys. Dilynodd y plant y Ficer, y Parch Aled Edwards gan weiddi, "Hosanna i Fab Dafydd" ar hyd y ffordd. Cafodd pob plentyn groes fechan a wnaethpwyd o olewydden o Israel.

Bedyddiwyd Eira Wyn a Dewi Wyn Perthi, gan y Parch Aled Edwards. Yn bresennol yn y gwasanaeth roedd cenhadwr o Kenya, Samuel Mawyo.

Ar Fawrth 23 priodwyd Miss Linda Wyn Roberts a Rodney Wade Holroyd. Dymuniadau da a phob hapusrwydd i chwi.

Bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd i'r Rhyl, y Sadwrn cyntaf yng Ngorffennaf. Enwau i Mrs Ann Patterson os gwelwch yn dda.

CLWB YR HEULWEN: Treuliwyd pnawn difyr yn gwrandao ar Mr O.R. Williams, Dinorwig yn olrhain hanes

ei blentyndod, ac am yr amser a dreuliodd yn y Cartref yn y Bontnewydd. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Williams a Mrs E. Porter. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwenifer Jones. Diolchwyd gan Mrs Nesta Jones a Mrs Percy Williams. Bydd y cyfarfod nesaf Mai 21 y gŵr gwadd fydd Mr Rol Williams, Waunfawr.

CLWB Y MERCHED: Treuliwyd noson hwyliog yng nghwmni merched Dinorwig. Perfformiwyd drama ysgafn ganddynt a chafwyd noson ddiddorol. Rhoddwyd y te gan Mrs B.E. Hughes a Mrs Nansi Jones ac enillydd y raffl oedd un o ferched Dinorwig.

Ebrill 23 daeth Delyth Oswy, swyddog gyda'r Mudiad Ysgolion Sul i sôn am ei gwaith. Cafwyd amlinelliad manwl o'i swydd a chafwyd arddangosfa dda o lyfrau lliwgar a deniadol ar gyfer plant o bob oedran yn yr Ysgol Sul. Diolch am y te a'r lluniaeth i Mrs Nathanael Jones a Mrs Bessie Williams. Enillwyd y raffl gan Miss Mair Foulkes.

GYRFA CHWIST: Cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Ebrill 19. Yr enillwyr oedd: 1. Mrs J. Jones, Llanrug, 2. Mrs H. Owen, Penisarwaun.

Dynion - 1. Mr Bellis, Pontrhythallt.

CYDYMDEIMLO: Deallwn fod Mrs J. Williams, 15 Bryntirion wedi colli cyfnither yn Neiniolen.

Ebrill 7 brawychwyd y pentref gyda marwolaeth sydyn Mrs Maggie Jane Jones, 5 Llys y Gwynt. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Betty, Mair a Gwynfor a'r teulu oll. Bu'r angladd ddydd lau yn Eglwys y Santes Helen am 2 o'r gloch ac roedd Eglwys lawn yn dysteb berffaith o boblogrwydd Mrs Jones yn y pentref.

DIOLCH: Dymuna Mr Meirion Jones, Weirglodd Las ddiolch i berthnasau, ffrindiau a phobl Clwb Eryri am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei waeledd.

GWELLHAD: Y mae nifer o'r pentrefwyr yn dal i ddioddef o'r fflw, dymunwn adferiad buan i bob un ohonoch. Brysiwch wella. Gobeithio fod Carwyn Williams a Dylan Williams, Carrog wedi gwella'n llwyr hefyd.

Rydym yn falch o glywed fod Mr Bryngwyn Griffith yn gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

EISTEDDFOD Y PENTREF: Cofiwch y dyddiad **Mai 10** am 5.30 p.m. Hwyl ar y dysgu a'r cystadlu. Diolch i bawb am eu cyfraniadau ariannol.

CLWB 100 Y NEUADD: Enillwyr mis Ebrill: 1. £20: Mrs Fisher, 2. Tai Arthur; 2. £12: Shirley Jones, Camelot; 3. £7.50: Mrs M. Thomas, Bod Awen. Mae'r Pwyllgor yn dymuno diolch yn fawr iawn i Helen Owen am drefnu'r Bingo ac i bawb sydd wedi cefnogi'r nosweithiau.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon, (870733)



LLONGYFARCHIADAU i dri o fechgyn y Nant am ennill gwobrau ym mhencampwriaeth Judo Gwynedd. Enillodd Ellis dlws arian, a'i frawd John ac Alun Baylis dlws efydd.

CYDYMDEIMLIR â Mr a Mrs O.W.

Humphreys, Gwastadnant a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd, Hugh Curig Owen a fu farw'n dawel yn ei gartref Dôl Eilian, Llanberis wedi cystudd blin.

Y PASG: Nos Sul y Pasg yn Rehoboth cafwyd perfformiad o ddrama o'r wythnos a ragflaenai'r Pasg a'r Croeshoeliad gan blant yr Ysgol Sul dan ofal Mrs J.M. Williams eu hathrawes. Roedd portread y plant a'r digwyddiadau'n ganmoladwy iawn.

MARW: Dydd Llun, Ebrill 22 yn dawel yn ei gartref Yr Ody, Aberdesach bu farw Robert Thomas a oedd yn enedigol o'r Nant, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs R.J. Thomas, Tan y Capel. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth.

BEDYDD: Nos Sul y Pasg yn Eglwys Sant Peris bedyddiwyd mab Mr a Mrs G. Jones, Aberystwyth. Wyr Mrs N. Closs Williams, gynt o Tan-y-bryn, gan y Parch A. Hawkins, y Rheithor.

CYNGHRAIR GWYNEDD DDI-NIWCLIAR

Yn ei chyfarfod diwethaf ar Ebrill 9 mynegodd Cynghair Gwynedd Ddi-Niwcliari ei phryder ynghylch y dirywiad yn y sefyllfa ryngwladol, ac yn enwedig ynghylch ymgais Llywodraeth Gwledydd Prydain i gyflyru'r boblogaeth i dderbyn y posibilrwydd o ryfel. Tybiodd fod y Llywodraeth yn chwarae gêm ddwbl. Trwy orfodi'r awdurdodau lleol i ymbaratoi at ddamweiniau ac argyfyngau, mae hi'n llwyddo i'w paratoi nhw at ryfel niwcliari ar yr un pryd. Gan fod pobl Cymru wedi dweud eu bod yn erbyn rhyfel a thros bob ymgais i gymodi mewn oes niwcliari, mae'n gas gan y Gynghrair agwedd fwyfwy herfeiddiol NATO, ac ymgais Llywodraeth Gwledydd Prydain i ail-greu awyrgylch rhyfel trwy adfer ac arfogi cyrff fel yr Home Guard. Mynnodd y Cymry ddatgan eu gwlad yn un ddi-niwcliari, ond y mae tystiolaeth ar gynydd fod y Llywodraeth yn sathru ar yr hawliau democrataidd hyn. Mae arfau niwcliari yn cael eu gwneud yma; allforiwyd plwtoniwm i America i'w gwneud nhw, a chaiff arfau niwcliari eu storio yng Nghymru o dro i dro. Pwy sy'n dal i siarad dros bobl Cymru?

CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU

Cynhelir Cyngor Blynyddol "Cymdeithas y Cymor yng Nghymru eleni yn y Deml Heddwch, Caerdydd am 10.30 y bore, ddydd Sadwrn, Mehefin 1. Dilyni'r cyfarfod hwn, - a fydd yn Gymraeg yn ôl ein harfer, - gan ginio bwffe gyda chynrychiolwyr o'r Gymdeithas yn Lloegr. Yna, am 3 o'r gloch traddodir yr 'Alex Wood Memorial Lecture' gan D.R. Thomas, Aberystwyth. Croeso i bawb. Gwerthfawrogi eich cydweithrediad, os ydych am fynychu'r cinio, pe baech yn rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Nia Rhosier, 14 Tŷ Kenilworth, Heol-y-porth, Caerdydd CF1 1DJ. (Ffôn oriau gwaith: 0222-494963) erbyn **Mai 15fed**.

Yn dilyn tair encil bendithiol iawn, bwriada'r Gymdeithas gynnal un arall yn Nhrefeca ger Talgarth, Powys, ar Dachwedd 1-2 1985. Cost: £17. Manylion gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

Os ydych am fwy o wybodaeth am waith y Gymdeithas a'u tystiolaeth danfoner am daflen at yr Ysgrifennydd.

AR WERTH

Soffa (eistedd 3) a dwy gadair brown golau - vinyl - £30.

Peiriant golchi (twin tub) - angen cost fechan - £20.

Tân paraffin: £20

Tân trydan (Meithrinfa) £5.

Carped tua llathen sgwâr,

cymysgedd o frown. £25. Ffôn Llanberis 870716.

Pâr o esgidiau olwynion ar gyfer maint traed 4 - £6.

Pâr o esgidiau olwynion ar gyfer maint traed 5 - £9. Ffôn: Caernarfon 2023.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

AM DDEWIS HAEL A GWASANAETH CYFEILLGAR DEWCH I

SIOP GRON A SWYDDFA'R POST PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



ARTISTIAID CYNGERDD Y DATHLU YN NEINIOLEN



**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd
ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

Pan gynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cynta'r Eco yn ysgol gynradd Llanrug ym 1977 roedd yr ystafell ddosbarth dan ei sang. Pur wahanol oedd pethau pan gynhaliwyd nawfed cyfarfod blynyddol - yn yr un ystafell - ar y noson wanwynog o Ebrill 15. Saith yn unig oedd yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gwyndaf Hughes; y lleill oedd Dafydd Whiteside Thomas, John Roberts, Mrs Mary Ll. Williams, Edward Elias, Tony Elliott a Twrog Jones.

Materion yn codi o'r cyfarfod cyffredinol diwethaf: Dywedodd y trefnydd hysbysebion y byddai'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gael person cyflogedig i weithio i'r Eco o dan un o gynlluniau creu gwaith y llywodraeth. Byddai ffrwyth ei ymchwil yn cael ei drafod mewn pwyllgor o'r swyddogion cyn penderfynu'n derfynol.

Cafwyd adroddiad byr gan bob un o'r swyddogion oedd yn bresennol. Diolchodd y tri golygydd i bawb oedd wedi bod o gymorth iddynt - i wneud y gwaith o lenwi'r Eco bob mis. Wrth ddiolch i'w erthyglwyr rheolaidd apeliodd y golygydd erthyglau am ragor o erthyglau cyfoes.

Gwnaethpwyd y sylw nad oes gan yr Eco olygydd chwaraeon, fel y cyfryw, ond diolchwyd i Aeron Jones, Deiniolen am wirfoddoli i fod yn ohebydd snwcer ac am ei gyfraniad brwdfrydig ar y gêm yn ein hardal bob mis.

Dywedodd y ffotograffydd y buasai'n falch iawn o gymorth ar adegau i ddatblygu llu o luniau sy'n cael eu tynnu ar gyfer pob rhifyn. Mae'r gwaith o dynnu'r luniau wedi ysgafnhau rhywfaint gan fod pobl sy'n dymuno cael llun rhyw achlysur arbennig yn yr Eco yn dod i nôl un o'n camerâu a gwneud y gwaith eu hunain.

Wrth ddiolch i'r hysbysebwyd dywedodd y Trefnydd Hysbysebion nad oes rhaid iddo chwilio am hysbysebwyd bellach - maen nhw'n dod ato fo - arwydd pendant bod gwerth mewn hysbysebu yn yr Eco.

Mae Eco'r Ifanc dan ofal Edward Elias bellach wedi ennill ei blwy'. Dyma'r rhan o'r papur lle rhoddir sylw i blant a phobl ifanc y fro - eu diddordebau, eu gweithgareddau, eu dyheadau a'u sylwadau ar eu byd. Gobeithiwn y bydd mwy a mwy ohonynt yn barod i weld bod ganddynt gyfle a chyfrwng i leisio'u barn.

Er bod cylchrediad yr Eco, (tua 2,300 copi bob mis) yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf mynegwyd pryder ynglŷn â'r gwerthiant mewn rhai rhannau o bentrefi'r fro. Awgrymwyd y dylai'r prif ddosbarthwyr yn y pentrefi wrth gysylltu â'u gwerthwyr, baratoi

rhestr o bawb sy'n derbyn yr Eco (h.y. rhestr o'r tai ble'i dosberthir) - gan ddechrau gyda'r rhifyn cyfredol. Gofynnir i'r prif ddosbarthwyr ddod â'r rhestr gyflawn gyda nhw i gyfarfod i drafod gwerthiant yr Eco, nos Iau, Mai 9 am 7.30 yn Ysgol Gynradd Llanrug. Penderfynwyd anfon cylchlythyr i'r perwyl i'r prif ddosbarthwyr.

Mynegwyd yr awydd i gael Cadeirydd ac Ysgrifennydd Cyffredinol i'r papur - pobl a fuasai'n cymryd y cyfrifoldeb o drefnu a gweithredu penderfyniadau'r Cyfarfod Cyffredinol. Awgrymwyd nifer o bobl yn y fro a fuasai'n debygol o fod â diddordeb yn y math yna o waith a bydd rhai o'r swyddogion yn cysylltu â nhw yn ystod mis Mai.

Ail-etholwyd yr holl swyddogion.

INCWM A GWARIANT YR ECO AM Y FLWYDDYN 1-31 MAWRTH 1985

Mewn llaw Ebrill 1 1984	£2870.40
INCWM	
Gwerthiant	4728.14
Hysbysebion	3193.50
Rhodddion	349.50
Grant	726.20
Llog	130.39
	9127.73
	11998.13

GWARIANT	
Argraffu	7623.70
Ffotograffiaeth	273.87
Biliau, amlenni etc	30.73
Stampiau	176.53
Gwobrau	16.00
Cystadleuaeth	
pêl-droed	5.00
Llogi ystafell	3.00
	8128.83

Mewn llaw Mawrth 31 1985 **3869.30**

PLÂT EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN OGWEN 1986



Y pris - £10. Dim ond 250 sy wedi eu gwneud ac mae 60 wedi'u gwerthu eisoes. Brysiwch chwi gaslgwyr!



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

CÔR CYDWLADOL IEUENCTID DROS HEDDWCH

"MAE bodolaeth Cymru a'r ddynoliaeth yn cael ei fygwth gan ryfel niwclear. Rhaid inni Gymry, ac ieuenctid Cymru yn arbennig, ymroddi â'n holl enaid i rwystro'r sataneiddwch hwn, ac i achub ein cenedl a'r ddynoliaeth. Ofer llafurio dros Gymru rydd os ydym oll i gael ein dileu. Rhaid cael gwared ar arfau niwclear ac ar ryfel. Er mwyn llwyddo gwneud hyn rhaid inni ddod i'n hadnabod ein gilydd, bobl gwledydd Ewrop a'r byd, ac ennyn ymddiriedolaeth yn ein gilydd a chariad y naill at y llall, boed ei genedl fel y bo."

Geiriau'r Dr Gwynfor Evans yw'r rhain, a oedd yn rhan o'i araith a draddodwyd i gangen Plaid Cymru, Pantycelyn ym mis Tachwedd 1983. Yr araith hon a fu'n symbyliad i ffurfio'r côr.

Yr oedd y Côr yn ymdrech ar ran myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth i dynnu sylw mewn ffordd adeiladol at wir ddeisyfiad i weld heddwch yn y byd, yn arbennig gan fod 1985 yn Flwyddyn Ryngwladol Ieuenctid.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o hanner cant o wledydd i ganu yn y Côr a chafwyd ymateb gan y gwledydd canlynol:

Yr Almaen, Awstria, Gwlad Belg, Canada, Cymru, Hong Kong, India, Yr Iseldiroedd, Iwerddon, Kenya, Lloegr, Nigeria, Gwlad Pwyl, Thailand, U.D.A.

Daeth galwad ffôn imi rai misoedd yn ôl, yn gofyn imi gyfeillio i'r côr arbennig yma, ac ynddo 47 o gantorion ifanc o wahanol rannau o'r byd. Dywedwyd wrthyf mai'r arweinydd a fyddai Mr Alun Guy, Caerdydd. Dyma fynd i wersyll yr Urdd yn Llangrannog ddydd Sadwrn, Ebrill 13. Pan euthym i mewn i'r neuadd rihysal, gallwn deimlo awyrgylch gyfeillgar o'r cychwyn cyntaf. Cyflwynodd Alun Guy fi i'r côr, a dechreuwyd ymarfer yn syth.

Y prif weithiau oedd 'Te Deum', Haydn a 'Gloria' Vivaldi. 'Roedd y ffordd y dadansoddodd ac y dysgodd Alun Guy y gweithiau hyn yn grefftus a cherddorol iawn. Ar y diwrnod cyntaf hwnnw, recordiwyd y rihysal a chyfweliadau ar gyfer y rhaglenni radio 'Rhwnig Gŵyl a Gwaith' ac 'Ar Hyd y Nos'.

Bu ymarfer caled drwy'r wythnos. 'Roedd croeso Jim O'Rourke a staff Llangrannog yn un gwresog iawn. Cynhaliwyd y cyngerdd cyntaf ar nos Iau, Ebrill 18, yn Theatr Gwynedd, Bangor; yr ail yn Aberystwyth ar y nos Wener a'r trydydd yng Nghaerdydd ar y nos Sadwrn.

Cafwyd cynulleidfaoedd da yn y tri chyngerdd fel ei gilydd. Yr eitem olaf yn y tri cyngerdd oedd canu 'Dwylo Dros y Môr', a hynny mewn 11 o wahanol ieithoedd! 'Roedd y gytgan yn Gymraeg, ac 'roedd parodrwydd y tramorwyr i siarad Cymraeg, a'u gallu i ynganu geiriau Cymraeg yn ennyn f'edmygedd i. Codent gywilydd ar y Cymry hynny na wnânt ymdrech i ddysgu eu hiaith frodorol.

Ym mhob mudiad a chymdeithas bron, ceir un 'cymeriad' digrif: 'cymeriad' y côr oedd 'Luc' o'r Iseldiroedd. Diolch amdano ef i godi'n calonnau pan oedd HTV yn cymryd oriau i'n ffilmio yng Nghaerdydd. Wedyn, 'roedd yna genod cryfion o'r Almaen. Gobeithient gael 'beer' pa le bynnag yr aent - hyd yn oed yng Nghapel Pendref, Bangor!

Llwyddodd y côr hwn i ddod â phobl ifanc o'r naill ochr i'r llen haearn at ei gilydd. 'Roedd y tri o wlad Pwyl yn rai truenus yr olwg, a golwg tlodaidd ar eu dillad. Ychydig iawn o arian a gaent ddod gyda hwy. Dangoswyd caredigrwydd eithriadol tuag at y rhain gan aelodau'r côr.

Ar ôl y cyngerdd yr Eglwys Ebeneser nos Sadwrn, gwahoddwyd y côr cyfan i dŷ Dr Eurig Davies. Ar ôl cael swper blasus yno, daeth yn amser ffarwelio. 'Roedd yna adegau emosiynol wedi bod yn y tri chyngerdd, ond 'roedd y ffarwelio olaf un yn achlysur dagreul iawn.

Bu'n brofiad 'cerddorol' gwahanol iawn i mi, ac 'rwy'n falch bod wyth o fyfyrwyr Cymraeg Aberystwyth wedi ymateb i'r her a osodwyd iddynt gan y Dr Gwynfor Evans.

ANNETTE BRYN PARRI
Cynefin, Deiniolen

TEYRNGED I'R DIWEDDAR HARRI GWYNN

Y mae llu o gymeriadau digon rhyfedd wedi eu denu i lechu yng nghysgod y Wyddfa ac i grafangio hyd ei chreigiau - mwy nag un ohonynt heb fod yn rhy dderbyniol a'r mwyafrif ymhell o fod yn rhan ddefnyddiol o'r gymdeithas. Ond dim un o'r rhain yn greaduriaid mor unigryw, mor anarferol â Harri Gwynn. O'i golli fe gollwyd un elfen liwgar arall o'r fro - fel mae porffor y grug yn pylu pan â'r haul tan gwmwl.

Ar un wedd medrai ddweud fel finnau mai dyn dieithr ydwyf yma - ond yr oedd Harri ac Eirwen wedi gwreiddio'n llwyddiannus ym mro'r chwareli, ac yn wir, hyd derfyn y gaeaf byddwn yn galw heibio i'w gario i Glwb Eryri yn Llanberis, lle byddai'n gwir fwynhau'r cwmni - a'r cwmni yn mwynhau ei sylwadau gwreiddiol yntau.

Bu ei dei bo yn adnabyddus trwy Gymru cyn bod sôn am Robin Day, gan mai Harri oedd gohebydd cyntaf y rhaglen deledu Gymraeg gyson gyntaf - sef *Heddiw*. Ei ffilmiau, fel y sylwodd Geraint Stanley Jones, Rheolwr BBC Cymru, yn hollol Gymreig eu natur a 'blas y pridd' yn drwm arnynt. Llais a dull Harri yn wahanol i lais a dull pawb. Unigolyn o'r unigolion.

Roedd Harri a minnau - ac Eirwen - yn gyd-fyfyrwyr ym Mangor. Hanesydd oedd Harri, a ddaeth yn awdurdod ar hanes y Crynwyr Cymreig cynnar - Siôn ap Siôn yn arbennig. Collasom olwg ar ein gilydd tros y rhyfel, pan oedd Harri yn gweithio i'r Bwrdd Masnach yn Llundain, ond dyma ailafael yn y berthynas pan benderfynodd symud i ffarmio yn Nhyddyn Cwcallt, Rhoslan.

Fe'i cefais i sgrifennu hanes y ffarmio anuniongred yma i'r *Cymro*, a bu ei golofn 'Rhwnig Godro a Gwely' yn un o brif atdyniadau'r papur. Colofn unigryw, fel pob un o greadigaethau Harri. Yr enwau rhyfedd ar y creaduriaid, o'i gathod (gyda llaw Satan yw enw ei gath ddu yn Llanrug) i'w hyrddod. Bedyddiodd y cwt ieir

helaeth yn Babel Lân, a gerllaw iddi roedd y Crystal Palace. Ac yn y golofn yma y bathodd yr enw 'tarw potel'.

Mae ganddo hefyd gyfrol - anarferol, wrth gwrs - ar ffarmio, neu ar ffarmio Harri Gwynn. Yr oedd wedi edrych ymlaen at gael gweld y gyfrol yma, Y Fwch a'i Chynffon, yn cael ei chyflwyno'n gyfres ar Radio Cymru at ddechrau'r gaeaf.

Fel bardd daeth i amlygrwydd mawr pan wrthododd W.J. Gruffydd - a hynny ar gam - â choroni ei bryddest ym Mhrifwyl Aberystwyth, er mai honno oedd yr ymgais orau. Ac fe brofa ei ddwy gyfrol, Barddoniaeth Harri Gwynn ac Yng Nghoedwigoedd y Sêr, bardd mor dda ydoedd.

Yr oedd yr ymlyniad rhyngddo ac Eirwen yn hawddgarwch pur, ac ef a berswadiodd Eirwen i fwrw iddi i sgrifennu'n gampus o rugl am wyddoniaeth yn Gymraeg.

Hen gyfaill hawdd ei gofio - ond anodd dygymod â'i golli.

John Roberts Williams.

ENNILL GWOBUR YR ACADEMI GYMREIG

Llongyfarchiadau i Bryn Jones, Dôl Elidir, Llanberis (sy'n byw ym Mangor erbyn hyn) ar ennill un o wobrau'r Academi Gymreig i lenorion ifanc. Cymeradwywyd ei stori fer 'Dechrau byw', gan y beirniaid Marion Eames, Alan Llwyd, Bryan Martin Davies ac R. Gerallt Jones.

Bydd Bryn, sy'n 23 oed ac athro yng Nghaerdydd, yn derbyn y wobur o ganpunt yng nghyfarfod cyflwyno Gwobr Goffa Griffith John Williams yn Ninbych ym mis Mai.

Mae wedi ennill nifer o wobrau llenyddol, gan gynnwys y fedal ryddiaith yn Eisteddfod Llanrug ym 1983.

DIOLCH

Dymuna Mrs Naomi Griffith, Bro Rhyddallt, Llanrug ddiolch o galon i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y llu cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref. Diolch hefyd i'r meddygon a gweinyddesau Ward Beuno a Phrysor.

AR WERTH

Carafan 'Sprite', lle cysgu i 4 - £250. Ffôn: Llanberis 870390.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

TAN-Y-COED

CYDYMDEIMLAD: Unwaith eto estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Meira Pritchard, Garnedd a Mr W.J. Williams, Prysgol yn y brofedigaeth sydyn a ddaeth i'w rhan, mor fuan ar ôl colli eu chwaer, Mrs Olwen Warburton.

Ym marwolaeth sydyn Mrs Elizabeth Hughes, Isfryn, Tai Rhythallt ar Ebrill 8 colodd Mrs Pritchard a Mr Williams fodryb annwyl iawn, a bydd chwithdod ar ei hôl. Y mae cydymdeimlad yr ardal â mab Mrs Hughes, y Dr J. Glyn Hughes, ei briod a'i blant a'r teulu oll.

CROESO ADRE i Mrs Elizabeth Ellis, 3 Tai Bryngwyn ar ôl treulio'r gaeaf gyda'i mab, Mr Tom Ellis a'i briod yn Nottingham.

ADFERIAD: Dymunwn adferiad buan i Mrs Margaret Williams, Bryn Beuno. Da deall fod Mrs Williams yn gwella'n dda ar ôl damwain gafodd yn ei chartref.

CROESO ADRE: i Mr W.E. Thomas, Bronant, Tai Minffrwd ar ôl treulio peth amser yn Ysbyty Gwynedd. Ein dymuniadau gorau am adferiad buan iddo yntau.

TRYSORYDD NEWYDD: Capel Tan-y-coed yw Miss Enid Roberts, Minafon. Dechreuodd ar ei gwaith Ebrill 1af, ar ôl ymddiswyddiad Mr R. Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn wedi deng mlynedd ar hugain o wasanaeth clodwiw fel trysorydd.

Dymuniadau da'r aelodau i Mr Jones ar ei ymddeoliad a chroeso i Miss Roberts i'w swydd newydd - a'n diolch i'r ddau am eu gwasanaeth.

PRIODAS: Yn Eglwys Bresbyteraidd

DARLITHOEDD CYHOEDDUS COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU MAI 1985

DARLITH GOFFA R.T. JENKINS
Dydd Sadwrn 4 Mai, 2.15 p.m.
Y Parch Brifathro R. Tudur Jones
(Coleg-Bala-Bangor)

Tân ar yr Ynys:
Diwygiad 1904-5 ym Môn
Traddodir y ddarlith yn Gymraeg

DARLITH O'DONNELL
Dydd Gwener, 17 Mai, 8.15
Y Dr J.P.C. Kent
(Curadur Darnau Arian a Medalau,
Yr Amgueddfa Brydeinig)
'Romans in retreat: a numismatic
historian's view of the decline
of their empire in Britain'
Traddodir y ddarlith yn Saesneg
Rhoddir y ddwy ddarlith ym Mhrif
Ddarlithfa'r Celfyddydau

Cymru Tan-y-coed Llanrug ar Ebrill 20 priodwyd Miss Janice Mary Roberts, Tainewyddion â Mr Arthur Raymond Smith, Kenilworth.

Gweinyddwyd y briodas gan y Parch W.O. Roberts a'r Parch Ifor Rowlands.

Miss Ruth Lennon oedd yn gwasanaethu wrth yr organ. Addurnwyd y capel â blodau hardd gan Mrs A. Land.

Yng Ngwesty Dolbadarn Llanberis y mwynhawyd y wledd briodasol.

Treuliwyd y mis mêl yn Llundain.

Miss Margaret E. Roberts, chwaer y briodferch oedd y Forwyn Briodas a'r gwas oedd Mr Steven Bassett, cyfaill y priodfab. Yr ystlyswyr oedd Mr Jeffrey Roberts (efaill y briodferch) a Mr Robert Griffin, cefnder y priodfab.



RHAGFARN

'Cerwch eich gelynyddion'
Ebe'r bugail o'r sêd fawr,
'A'ch beiau byddant wynion
Er'n fras fel llwch y llawr.'

Cynhyrfwyd un pechadur,
Penderfynodd ufuddhau,
Rhoes gymorth i'w gymydog,
Maddeuodd fai ar fai.

Ond ofer fu'r aberthu,
Dioddefodd siom a phoen,
Cans gŵr o'r Affrig ydoedd
A du oedd lliw ei groen.

E.J. OWEN
7 Dorney Grove
Weybridge, Surrey

DRAENOG



Tybed a fyddai Band Llanrug - yn dilyn eu llwyddiant diweddar, yn cysidro defnyddio rhywfaint o'u gwobr ariannol i brynu cloc i un o'u haelodau. Mae un o'u haelodau yn methu'n lân â chofio pa amser mae clociau'n cael eu troi, ac yn mynnu cyrraedd i bob ymarfer awr yn gynt na phawb arall.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)



CÔR ADRAN YR URDD a fydd yn cystadlu yng Nghaerdydd.

CLWB Y MAMAU - Cafwyd noson ddiffr iawn nos Fercher, 27ain Mawrth yng nghwmni Mr Bobby Haines, Caernarfon.

Gwnaethpwyd y te gan Sandra a Medwen ac enillydd y raffl oedd Sheila Lambrecht.

Llongyfarchwyd Côr yr Urdd dan 12, a'u harweinydd Mrs Glenys Griffith, yn eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir. Gwyddom i gyd y bydd costau mawr yn wynebu adran yr Urdd i gludo'r plant i Gaerdydd, a phenderfynwyd cyfrannu £25 o Glwb y Mamau tuag at y costau hyn.

MERCHED Y WAWR - Yng nghyfarfod mis Ebrill, croesawyd Mr David Morris o Awdurdod Dŵr Cymru a dangosodd ddwy ffilm ar waith yr Awdurdod. Dymunwyd yn dda i'r Llywydd, Mrs Glenys Griffiths, a chôr yr Urdd yng Nghaerdydd a phenderfynwyd rhoi rhodd o £10 iddynt.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Rita Williams. Y gwestwagedd oedd Mrs M.G. Williams, Miss Lea Thomas a Mrs Mary Griffiths.

LLONGYFARCHIADAU i Trefor a Rhian Jones, Llys Elen ar enedigaeth merch, Elin Angharad. Llongyfarchiadau hefyd i Wyn ac Enid Williams, Yr Efaill, ar enedigaeth mab.

CLWB IEUENCTID - Wedi wyth mlynedd o wasanaeth fel arweinydd Clwb Ieuencid y pentref, mae Richard Lloyd Jones yn rhoi'r gorau i'r gwaith ar ddiwedd y tymor. Bydd chwith mawr ar ei ôl, mae wedi gwneud gwaith da hefo'r ieuencid dan amgylchiadau anodd ar brydiau. Mae aelodau'r clwb i gyd yn diolch o

galon iddo am ei wasanaeth.

YR URDD - Mae trefniadau yn mynd ymlaen yn foddhaol iawn i baratoi i fynd â'r côr i lawr i Gaerdydd yn ystod wythnos y Sulgwyn. Nos Wener, Ebrill 19 cynhaliwyd noson goffi yn y Neuadd gyda'r elw yn mynd at y gost. Diolchwyd o galon i'r cymdeithasau lleol am eu cyfraniad i'r gronfa a hefyd i nifer o'r unigolion am eu cyfraniad hwythau. Enillwyd y raffl fel a ganlyn: Tocyn Anrheg £3, Mrs Griffith, Lôn Glai; Ffrwythau, Elfyn Pritchard, y Swyddfa Addysg; Cinio cyw iâr, Mrs Sian Jones, Ysgol Bethel; Nwyddau, Mrs Pat Jones, Ysgol Bethel.

Yn y noson goffi cyflwynwyd anrheg i Ann Hopcyn i ddangos gwerthfawrogiad o'i chyfraniad i'r adran dros y blynyddoedd ac i ddymuno'n dda iddi a'r teulu yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon.

AR Y TELEDU - Yn ystod y mis gwelwyd rhaglen ddiddorol iawn ar S4C yn dilyn hanes Mr Roberts, Penrhos am gyfnod yn ystod yr haf diwethaf. Roedd y rhaglen yn dangos dewrder Mr Roberts a'r teulu yn wyneb anawsterau mawr. Dymuniadau gorau i Mr Roberts yn y dyfodol a phob llwyddiant yn y rاسus cwn.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

GWILYM O. ROBERTS

WEIRGLODD GOCH

PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871407

DOSBARTHWR LLEFRITH

Trwy ardal
ECO'R WYDDFA
Hefyd TATWS, WYAU
ac ati at eich drws

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

LLANBERIS

(Atodiad)

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Grace Griffith, 5 Dôl Eilian ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra'n Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

— Dymuna Mr Hugh R. Jones ddiolch i staff Ysbyty Gwynedd am bob gofal ac am bob dymuniad da trwy gardiau, ymweliadau ac anrhegion tra bu'n yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Diolch i staff y Clinic am eu gofal caredig.

Y CARNIFAL: Llongyfarchiadau i Hannah Rudkin, Gerafon ar gael ei dewis yn Frenhines Carnifal 1985, i'r gweinyddesau Iona Vaughan, 1 Rhes Cambrian a Carys Mai Parry, 18 Dôl Elidir ac i'r gwas Oliver Hawkins, Y Rheithordy.

YSGOL DOLBADARN:

Cwis Diogelwch y Ffyrdd: Ddydd lau, Ebrill 18, cynhaliwyd Cwis Diogelwch y Ffyrdd yn yr ysgol. Daeth tîm o Ysgol Bron y Foel, Llandwrog Uchaf i Ddolbadarn a chafwyd gornest glos a chyffrous iawn. Yn anffodus colodd tîm Ysgol Dolbadarn o un pwynt. Dymunir bob llwyddiant i'r buddugwyr. Aelodau tîm yr ysgol oedd: Nia Roberts, Tristan Rees, Euron Thomas a Llifon Foulkes.

Cystadleuaeth Sgorio Pêl-rwyd: Enillodd Linda Prydderch fathodyn dwy seren, ac Annette Sellars fathodyn un seren mewn cystadleuaeth sgorio Pêl-rwyd o dan nawdd Banc y Midland.

Mini Rygbi: Mae'r bechgyn canlynol yn dal i fynychu'r sesiynau hyfforddi Mini Rygbi yng Nghaernarfon ac yn chwarae'r reolaidd dros dîm y Clwb—lan Lloyd Hughes, Shane Price, Stephen Edwards, Llifon Foulkes a Jason Jones. Bu lan a Shane yn chwarae yn erbyn yr Wyddgrug yn

rownd derfynol Gogledd Cymru o Gystadleuaeth y 'South Wales Echo'. Colli fu eu hanes ond cawsant brofiad bendigedig a thystysgrifau a bathodynau lliwgar. Trefnir parti i'r bechgyn Mini Rygbi ar Fai'r 8 yn y Clwb yng Nghaernarfon.

Yr Ymgyrch Lyfrau: Bydd yr Ymgyrch Lyfrau yn dod i ben ganol mis Mai. Os ydych am brynu llyfr, rhaid archebu cyn hynny. Diolch yn fawr iawn ichwi am eich cefnogaeth.

"Dwylo Dros y Môr": Mae ychydig o recordiau 'Dwylo dros y môr' ar ôl. Pris £1.15. Â'r £1 i helpu'r newynog yn Ethiopia.

Trip: Dydd lau, Mai 2, mwynhaodd y plant drip ar lein fach Rheilffordd Llyn Padarn. Diolch yn fawr iawn i'r rheolwyr am eu caredigrwydd.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Betty A. Owen, gweinyddes feithrin, a Mr O. Humphreys, un o reolwyr yr ysgol, o golli eu brawd-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

"Brysiwch wella": Bydd Mr John H. Hughes, ein prifathro yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd, Bangor yn ystod y mis. Dymuna'r plant a'r staff i gyd adferiad iechyd buan iddo gan obeithio y bydd yn ôl gyda ni cyn bo hir. Brysiwch wella, Mr Hughes!

Gŵyl: Cofiwch y bydd yr ysgol ar gau ddydd Llun, Mai 6 (Calan Mai).

DYDDIADAU I'W COFIO

Mehefin 15: Gwibdaith yr Haf Clwb Eryri.

Mehefin 23-29: Wythnos Garnifal Llanrug.

Gorffennaf 7-13: Wythnos Garnifal Bethel.

Gorffennaf 14-20: Wythnos Garnifal Llanberis.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

CYNGERDD:

Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn ar Fawrth 26 yn Neuadd yr Ysgol i ddathlu tri chanmlwyddiant geni'r cyfansoddwyr Bach, Handel a Scarlatti. Cymerwyd rhan gan unigolion, offerynwyr, partion a chorau'r ysgol. Gwnaed elw o £158, a bwriedir rhoi £50 tuag at Gronfa Cyfeillion Cerdd Gwynedd a'r gweddill i gronfa Urdd yr Ysgol.

ADRAN YR URDD:

Nos Fawrth Mai 7 bydd Noson Goffi yn yr Ysgol i godi arian at gostau 2 daith i Eisteddfod Caerdydd.

Bydd cyfle i wrando ar nifer o eitemau gan y disgyblion, cael paned o goffi a chacen a chyfle i brynu oddi ar y stondinau. Pris y tocyn yw 25c. Gwerthfawrogi pob cefnogaeth a dymunir pob llwyddiant i'r disgyblion fydd yn cystadlu ar ddydd lau a dydd Sadwrn yr Ŵyl. Os hoffai rhywun deithio i lawr ar y bws ar ddydd Mercher neu'r Gwener (am bris rhesymol) cysyllter â'r ysgol.

CYMDEITHAS Y GEDEONIAID:

Enw ar gymdeithas o bobl sy'n rhannu copiâu o'r Beibl mewn ysbytai, gwestai a lleoedd eraill yw'r Gedeoniaid. Bore Mercher, Ebrill 24 daeth dau aelod o'r gymdeithas, Mr Soper a Mr Smith, i wasanaeth blwyddyn un. Cawsom glywed am waith y gymdeithas a chyflwynwyd Testament Newydd i bob un o'r disgyblion y flwyddyn gyntaf.

PÊL-DROED:

Yn ystod gwyliau'r Pasg fe chwaraeodd tîm cymysg o fechgyn y

flwyddyn gyntaf a'r ail yn erbyn tîm o Ysgolion Lerpwl dan 12 oed. Colli wnaeth yr Ysgol 6-1. Marc Williams (Llanberis) sgoriodd unig gôl yr ysgol — gôl orau'r gêm o bosib. Fe chwaraeodd Geraint Roberts (Llanrug) yn dda iawn hefyd fel cefnwr de i dîm yr ysgol.

Dewiswyd **Stuart Williams** i chwarae i dîm Ysgolion Gogledd Cymru dros 15eg oed yn erbyn tîm dan 15eg yr Unol Daleithiau ym Mrymbo yn ystod y gwyliau. Colli wnaeth yr ysgolion 2-1. Ar yr un diwrnod ar y Cae Ras yn Wrecsam fe chwaraeodd **Steven Owen** i dîm dan 18 oed Ysgolion Cymru yn erbyn tîm ieuencid yr Unol Daleithiau. Cymru enillodd y gêm yma 2-1.

Ar Ebrill 19 fe chwaraeodd **Steven Owen** ei drydedd gêm i dîm Ysgolion Cymru yn erbyn Ysgolion Lloegr yn Bolton. Colli fu hanes y Cymry 3-1.

Fe chwaraewyd rhai o'r gemau tai ar bawn diwethaf tymor y Pasg. Fe chwaraeodd y genethod hŷn bêl foli a'r bechgyn hŷn pêl-droed 4-bob-ochr. Dyma sut y rhannwyd y pwyntiau ar ddiwedd y cystadlu:

Bechgyn Hŷn (Pêl-droed):

Eilian — 20

Elidir — 15

Gwyrfaï — 10

Eryri — 5

Genethod Hŷn (Pêl Foli)

Gwyrfaï — 20

Eilian — 15

Eryri — 10

Elidir — 5

Mwy o chwaraeon yr ysgol ar y dud. gefn.

FFILMIO YN Y RHYL



Criw o blant Ysgol Gynradd Llanrug yn ffilmio ar y traeth yn y Rhyll — ddydd Llun y Pasg. Cofiwch wyllo rhaglen 'Tony ac Aloma', 7.30 nos Wener, Mai 3 — bydd y plant yn cael cymorth y ddeuawd enwog!

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Rhwng Ynys Môn a Pharis

Does unlle gwell i'w ddewis

Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,

Na'r Bistro yn Llanberis.

Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta

THEATR SEILO CAERNARFON

**Nos Fercher Mai 22
Nos lau Mai 23
am 7.30**


**TONY
ac ALOMA**

**IDRIS CHARLES
ROY JAMES
PLANT YSGOL LLANRUG
ANN A SARA**

**TOCYNNAU £2 PLANT A
PHENSIYNWYR £1**

Ar werth yn Siop y Pentan (C'fon 5262)

CROESAIR MAI



AR DRAWS:

1. Llyfnu (5)
4. - Tudur (Pentref ger Llanrwst) (5)
10. Yn ymwneud â'r tir (5)
11. Twyllodrus (7)
12. Pobl hŷn (8)
13. Gweddus (4)
15. Nid mor fudr (6)
17. Ystafell eistedd (6)
19. Fi fy hunan (4)
20. Afrifed (8)
23. Annhebygu (7)
24. Lliw'r tân (5)
25. Glanhau (5)
26. Rhan o bennod (5)

I LAWR:

2. Tewch - na dŵr (5)
3. Dewisiad (8)
5. Bwrdd Cymun (4)
6. Heb seibiant (2,5)
7. Chwaraeon (11)
8. Llewod ac ati (5)
9. Goruwchwylywyr (11)
14. Hawl (8)

16. Gwerthu i wlad arall (7)
18. Enw merch ac aderyn (5)
21. Blaguro (5)
22. Rhagorol (4)

Cyfrifir ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th fel un llythyren.

Atebion Croesair Ebrill:

AR DRAWS: 1. Ebychian, 7. Baban, 8. Creadur, 9. Trengi, 11. Dolef, 13. Elen, 14. Wylofus, 15. Tair, 16. Sobri, 17. Athrofa, 21. Gweithdy, 22. Maint, 23. Pryderu.

I LAWR: 2. Barddoniaeth, 3. Chwarelwr, 4. Achub, 5. Cawr, 6. Barn, 9. Tarfu, 10. Gweithredwr, 12. Aloma, 13. Esboniad, 18. Rwan, 19. Fyny, 20. Gŵyr.

ENILLYDD: Miss Phyllis M. Jones, Derlwyn, Penygroes.

Anfonwch eich cynigion at Gareth Hughes, 27 Bro Rhos, Bethel. Bydd gwobr o £2 i'r cynnig cywir cyntaf i'w dynnu.

RHODDION

Diolch yn fawr iawn i'r rhai canlynol am eu rhoddion caredig at gostau cynhyrchu'r Eco. Diolch yn fawr i Mr Alwyn Jones, Racca, Penisarwaun am gyfraniad hael iawn. Diolch yn ogystal i:

£5: Mrs Inigo Jones, Eilionwy, Llanrug; Hugh R. Jones, Llanberis.
£3: Mrs Dilys Roberts, Olgra Terrace, Llanberis; Di-enw, Penisarwaun; Teulu Craigle, Dinorwig; Len Jones, Penisarwaun; Mrs H.J. Thomas, Marian Terrace, Deiniolen; Mr Owen Jones, Talwrn, Môn.

£2: Eleri ac Eilir Parry, Llanberis; Lynda ac Emlyn Davies, Llanberis; Mrs Dilys Graham a Mrs Mary Jones a'r teulu; Mrs S. Williams, Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Lily Horman, Venice, Llanrug; Bethan ac Eurwen, Bethel.

£1.50: Di-enw, Waun, Penisarwaun.

£1: Mrs Jennie Maxwell, Llanberis; Annie Jones a Mary G. Griffith, 5 Dôl Eilian, Llanberis; Gwilym a Mair Williams, Bodhyfryd, Waunfawr.

CWMNI DRAMA LLANBERIS YN EISIAU

Hen bapurau newydd a chylchgronau - i godi arian at Theatr Fach Gorffwysfa

Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r cwmni

Dyddiadur y Mis

DYDDIADUR MAI

1, **Mercher, BETHEL:** Bingo dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd Goffa am 8 o'r gloch.

2, **Iau, YR ARDAL:** Etholiadau Cyngor Sir.

3, **Gwener, WAUNFAWR:** Noson Goffi Clwb Gwyrfa'i yn y Ganolfan am 6.30.

PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.

4, **Sadwrn, LLANBERIS:** Y Cwmni Drama yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yng Ngŵyl Drama Pwllheli.

6, **Llun, CALAN MAI, LLANBERIS:** Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

YR ARDAL: Yr ysgolion ar gau.

7, **Mawrth, BETHEL:** Clwb Bro Bethel - noson yng nghwmni Mr Rol Williams, Waunfawr.

DEINIOLEN: Clwb Elidir.

8, **Mercher, CWM-Y-GLO:** Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

10, **Gwener, LLANBERIS:** Te yr Henoed.

PENISARWAUN: Eisteddfod bentref yng Nghapel Glasgoed am 5.30.

11, **Sadwrn, YR ARDAL:** Gŵyl Wanwyn Merched y Wawr.

LLANBERIS: Y Cwmni Drama yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yn Rhosneigr.

Mai 13-18: Wythnos Cymorth Cristnogol.

13, **Llun, BETHEL:** Pwyllgor y Carnifal.

LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

14, **Mawrth, LLANRUG:** Merched y Wawr - 'Planhigion Tŷ' gyda Mr Gareth Evans, Coleg Pencair.

YR ARDAL: Gŵyl Undeb y Mamau yn

Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7 o'r gloch.

DEINIOLEN: Sefydliad y Merched - sgwrs gan Mrs Vera Hughes, VCO.

15, **Mercher, YR ARDAL:** Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa yn Ysgol Gynradd Llanrug am 7.30 - Noson Gymdeithasol a chyfarfod Cyffredinol yng ngofal Mr Dafydd Whiteside Thomas.

CWM-Y-GLO: Bingo yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

LLANRUG: Gwibdaith Hafan Elan i gyffiniau Llŷn.

16, **Iau, LLANRUG:** Eglwys Sant Mihangel - Helfa Drysor. Yr elw er budd Cronfa'r Eglwys.

17, **Gwener, YR ARDAL:** Merched y Wawr - 'Miri Mai' yn Ysgol Syr Hugh Owen.

PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.

18, **Sadwrn, DEINIOLEN:** Taith Ddirgel Merched y Wawr.

20, **Llun, LLANBERIS:** Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

21, **Mawrth, DEINIOLEN:** Clwb Elidir.

PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen - Gŵr gwadd yw Mr Rol Williams, Waunfawr.

22, **Mercher, DEINIOLEN:** Cangen Plaid Cymru - Noson yng nghwmni'r Cynghorydd Dafydd Orwig yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

23, **Iau, LLANRUG:** Cyfarfod Chworiydd Ponrhythallt.

Mai 24-25: Treialon Cŵn Defaid yn Nant Peris.

24, **Gwener, LLANBERIS:** Te yr Henoed.

WAUNFAWR: Cangen Plaid Cymru - Noson o 'Hwyl, Paned a Sgwrs' yn y Ganolfan am 7.30.

YR ARDAL: Yr ysgolion ar gau dros Wyl y Sulgwyn.

27, **Llun, LLANBERIS:** Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Mai 28-Mehefin 1: Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Caerdydd.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh Development Agency

CHWARAEON

Y GOLOFN SNWCER

gan Aeron Jones

CYNGHRAIR BANGOR A'R CYLCH

ADRAN A

	CH	E	Cyf	colli	O Bl	Yn	Er	Pt
2 Gleision Llanrug	30	20	5	5	124	56	45	
9 Duon Deiniolen	30	10	10	10	87	93	30	
15 Gleision Deiniolen	30	3	7	20	53	127	13	
16 Cochion Llanrug	30	4	4	22	54	126	12	

ADRAN B

6 Gleision Bethel	26	12	6	8	83	73	30	
7 Duon Bethel	26	8	11	7	81	75	27	
10 Cochion Deiniolen	26	6	12	8	72	84	24	

Canlyniadau mis Ebrill:

ADRAN A:

DUON DEINIOLLEN:

2:4 Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon)

5:1 Cochion Llanrug

4:2 Crosville C'fon (Gleision)

3:3 Ceidwadwyr C'fon (Duon)

GLEISION DEINIOLLEN

1:5 Ceidwadwyr Felinheli (Duon)

0:6 Gleision Llanrug

1:5 Crosville C'fon (Duon)

2:4 Ceidwadwyr C'fon (Gleision)

GLEISION LLANRUG:

3:3 Ceidwadwyr C'fon (Duon)

6:0 Gleision Deiniolen

3:3 Duon Nantlle

1:5 Llafur Llangefni

COCHION LLANRUG

1:5 Ceidwadwyr C'fon (Gleision)

1:5 Duon Deiniolen

4:2 Gleision Nantlle

1:5 Gleision Marbryn

ADRAN B

GLEISION BETHEL:

4:2 Ceidwadwyr Bangor (Duon)

1:5 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)

2:4 Cochion Deiniolen

4:2 Cochion Groeslon

DUON BETHEL:

3:3 Gleision Porthaethwy

3:3 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)

4:2 Nantlle Brown

1:5 Duon Groeslon

COCHION DEINIOLLEN:

3:3 Cochion Bethesda

4:2 Gleision Bethel



Enillwyr cystadleuaeth snwcer a billiards Clwb Deiniolen.

Nos Lun, Ebrill 15 roedd rownd derfynol handicap Snwcer Deiniolen yn cael ei chwarae.

Dan 13

Pencampwr – Gerallt Morris

2 – Neil M. Williams.

Dan 16:

Pencampwr – Tegid Roberts

2 – Dewi Williams

16 a throsodd (Snwcer)

Pencampwr – Philip Guy

2 – Aeron Jones

16 a throsodd (Billiards)

Pencampwr – Meirion Jones

2 – Robert Williams

Nos Fawrth Ebrill 23 yng Nghlwb Ceidwadwyr Felinheli chwaraewyd rownd cyn-derfynol unigolion cynghair Bangor a'r cylch. Roedd Haydn Williams yn cynrychioli Deiniolen yn erbyn A Woods Porthaethwy. Curodd Haydn o ddwy ffrâm i un, pob lwc

iddo yn y rownd derfynol.

Mae Haydn hefyd wedi cael ei ddewis gyda Hefin Jones i fynd i glwb 'Breaks' ym Manceinion i gystadleuaeth ieuenctid ar Fai 12. Gyda hwy fydd Mr Bob Humphreys hyfforddwr Snwcer o Landudno. Mae Mr Humphreys wedi bod yn dod i'r clwb i hyfforddi'r chwaraewyr ifanc ers rai blynnyddoedd ac mae ei ddylanwad yn amlwg i'w weld.

CWPAN

MALCOLM MORRIS

Collodd Clive Griffith o Lanrug yn y rownd cyn-derfynol.

Cystadlaethau Gogledd Cymru

Collodd Clive Griffiths a Gerald Griffiths yn erbyn Neil Davies a H. Morris o Gaergybi yn y rownd cyn-derfynol.

Collodd Clive Griffiths yn erbyn C. Jones o Wrecsam yn y rownd cyn-derfynol.

Tîm Duon Bethel



RHES GEFN: (O'r chwith i'r dde): E. Jones, P. Humphreys, T. Bohana, E. Jones. RHES FLAEN: K. Jones, M. Jones, A. Jones.

PENCAMPWR DARTIAU



Yn y llun: chwith i'r dde: Tony Roberts, Eric Williams a Merfyn Jones (capten y tîm dartiau).

Eric Williams, enillydd tarian Mr a Mrs Les Handlon. Y gwpan i'w hennill yn flynyddol mewn cystadleuaeth agored yn nhafarn Penbont, Llanrug.

Hefyd, enillodd Eric y gwpan 'Dolbadarn Darts Challenge Cup'. Dros 80 yn cystadlu o'r holl fro. Bwriad y gwpan yw casglu arian at Gronfa Ymchwil yr Arennau.

PENCAMPWYR TRAWS-GWLAD YSGOL BRYNREFAIL



Ddydd Mercher cynta'r tymor cafwyd cyfarfod rhedeg traws gwlad yr ysgol. Dyma'r canlyniadau:

Genethod dan 13: 1. Jennifer Clarida (Llanberis); 2. Julie Baylis (Llanberis); 3. Eirian Roberts (Llanberis). **Dan 15:** 1. Julie Cyster (Deiniolen); 2. Gillian Glass (Llanberis); 3. Wendy Rowlands (Llanrug).

Genethod hŷn: 1. Anna Wood (Ceunant); 2. Helen M. Pritchard (Nant); 3. Monique Sandercombe (Nant).

Bechgyn dan 13: 1. Rodney Roberts (Brynrefail); 2. Robert Jones (Pontrug); 3. Steven Wroe (Waunfawr). **Dan 15:** 1. Paul Grant (Llanrug); 2. Paul Prydderch (Llanberis); 3. Lee Griffith (Dinorwig). **Bechgyn hŷn:** 1. Stephen Riley (Dinorwig); 2. Michael Coombes (Penisarwaun); 3. Bruce Johnstone (Llanrug).

Cyfanswm pwyntiau – Gwyrfai – 114; Elidir – 107; Eryri – 102; Eilian – 63.